# Y DINESYDD

Rhagfyr 2021 / Ionawr 2022

Papur Pobl Caerdydd a'r Fro

Rhif 464 £1.20




Llun:
Trwy garedigrwydd
Aled Hall

## Mynd am dro drwy'r tymhorau ym Mharc Biwt

## O liwiau rhyfeddol yr Hydref i oleuadau hudol y Nadolig



Llun:
Trwy garedigrwydd
Tom Guy

# Y DINESYDD

**Golygyddion:**
**Eirian a Gwilym Dafydd**

***Golygydd Chwefror:***
***Clive Rowlands***

Cyfraniadau erbyn 27 Ionawr at:
clive43@icloud.com
5 Clos y Wern, Rhiwbeina,
Caerdydd, CF14 6NL
029 22417045 / 07866 667313

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau at:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print, Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd


## Golygyddol

Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor *Y Dinesydd* dros Zoom, nos Iau, 25 Tachwedd, gyda Ceri Morgan yn cadeirio. Trafodwyd nifer o faterion gan gynnwys y canlynol.

Soniais fy mod wedi cael golwg ar rifyn Rhagfyr 2011 - gellir ei weld ymhlith ôl-rifynnau eraill ar wefan dinesydd.cymru. Rhifyn 16 tudalen oedd hwn a Hywel Jones yn golygu. Sylwais bod wyth ysgol yn llenwi pedair tudalen a hanner. Eleni dim ond un ysgol sydd wedi anfon cyfraniad i'r *Dinesydd*.

Hwn yw'r pwynt arwyddocaol. Mae cylchrediad ein papur bro bellach yn llai na 600 a mentraf sawl ceiniog bod y mwyafrif o'r tanysgrifwyr a'r darllenwyr yr ochr anghywir i 60 oed!

Bydd *Y Dinesydd* yn dathlu'r hanner cant gyda rhifyn Ebrill 2023 a ni yw papur bro hynaf Cymru. Rhaid edrych ymlaen a rhoi sylw i'r canlynol: **sut medrwn ni ddenu darllenwyr iau i ddarllen ein papur bro heb sôn am dalu amdano!**

Yn y tymor byr dyma un awgrym. Beth rown ni i'r rhai iau fel anrheg Nadolig? Am £10 medrir darllen *Y Dinesydd* ar-lein am flwyddyn gyfan. Rhowch bapur £10, enw a chyfeiriad e-bost y person ffodus yn llaw Ceri, Arthur, Eirian neu fi. Fe wnawn ni'r gweddill - gwasgu'r botwm 'anfon' ac y mae mor syml â hynny.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda bawb!

*Gwilym Dafydd*




## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CAFFI FFLOC**, Heol Ddwyreiniol y Bontfaen
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.

*"Cadwch yn saff a mwynhewch yr Ŵyl er gwaethaf popeth!"*



Dyma golofn olaf 2021 ac mae hi wedi bod yn flwyddyn gythryblus, pryderus a diflas rhwng pawb a phopeth. Ond ar hyn o bryd gobeithiwn am Nadolig mwy pleserus na'r Nadolig diwethaf pan on ni mwy neu lai yn gaeth i'n cartrefi oherwydd lledaeniad y firws felltith sy wedi rheoli ein bywydau cyhyd.

Ar ddiwedd y flwyddyn hon bydd Owen Evans, Prifweithredwr S4C ers 2017, yn gadael ei swydd i fod yn Brif Arolygwr Ysgolion Cymru gyda'r corff Estyn. Ei olynydd fydd Sian Doyle cyn Gyfarwyddwr Rheoli Talk Talk ac EE cyn hynny. Croeso iddi hi a phob dymuniad da iddi yn ei swydd heriol hefo S4C.

Yn ystod cyfnod Owen Evans hefo S4C gwelwyd cynnydd yn nifer gwylwyr y Sianel ac ati a hynny er gwaethaf y gystadleuaeth sy yn y byd teledu gan fod cymaint o sianeli ar gael bellach i ddenu sylw'r cyhoedd. Diolch iddo am ei holl waith caled gyda S4C a dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd.

Y mis diwethaf cynhaliwyd Eisteddfod y Wladfa ym Mhatagonia yn rhannol rithiol ac o Neuadd Dewi Sant yn Nhrelew. Enillwyd Cadair yr Eisteddfod gan ferch o'r enw Geraldine MacBurney Jones Llanrwst ond gynt o'r Gaiman yn y Wladfa. Des i i 'nabod ei hen daid pan on i'n byw yn y Gaiman a difyr odd sgwrsio ag o am ei hanes yn ymfudo i Batagonia o'r Gogledd yn ddeunaw oed. Bu farw yn 1993 yn 101 oed.

Eleni mae Ysgol Maes Garmon yn yr Wyddgrug wedi bod yn dathlu 60 mlynedd ers ei sefydlu nôl yn 1961, yn dilyn sefydlu yr Ysgol Uwchradd Gymraeg gyntaf yng Nghymru sef Ysgol Glan Clwyd yn y Rhyl yn 1956, diolch i weledigaeth Dr Haydn Williams, Cyfarwyddwr Addysg Sir y Fflint ar y pryd. Rhyfedd meddwl ein bod wedi gorfod aros tan 1956 i gael y datblygiad hwn yn ein gwlad tra ym Mhatagonia agorwyd Ysgol Ganolraddol yn y Gaiman odd yn dysgu'r disgyblion drwy'r Gymraeg yn 1906! Un o sylfaenwyr yr ysgol honno odd y llenor Eluned Morgan a fu'n byw yng Nghaerdydd am gyfnod ac yn addoli yng Nghapel Minny Street.

Yn ddiweddar yn 72 oed ymddeolodd Ian Jones o'r Coety ger Pen-y-bont ar Ogwr odd yn un o'r towyr olaf yn y wlad. Ymunodd â'i dad i ddysgu'r grefft o osod toeau gwellt pan odd o'n 22 oed ac mae ei waith cymen i'w weld ar nifer o dai ym Mro Morgannwg ac yn yr Amgueddfa yn Sain Ffagan. Dysgodd siarad Cymraeg ac odd o'n hoff o ganu'r ffliwt mewn digwyddiadau i ddysgwyr yr iaith. Gwelir ei eisiau yn fawr gan obeithio y daw rhywun arall i'w olynu yn y grefft hynafol hon.

Mae'r frwydr i geisio deddf i rwystro pobl rhag newid enwau Cymraeg traddodiadol ac ati a rhoi enwau Saesneg yn eu lle yn parhau a'r enghraifft ddiweddaraf o hyn ydy tŷ yng Ngheredigion odd yn eiddo ar un adeg i Cynog Dafis, cyn Aelod Seneddol yn y Sir, a drodd gan ei berchennog newydd o fod yn 'Crugyreryr Uchaf' i fod yn 'Upper Eagle Farm'! Ond heb ddeddf mae hi'n amhosibl i warchod treftadaeth y wlad. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi dangos y ffordd drwy ddileu yr enwau Saesneg am Yr Wyddfa ac Eryri a dim ond yn defnyddio'r enwau Cymraeg bellach.

Ers mis Medi gwraig o'r enw Menna Rawlings, sy o dras Cymreig ar ochr ei mam ydy Llysgennad Prydain yn Ffrainc. Cafodd ei magu yn Llundain ond mae yn ymwybodol o'i chefndir Cymreig ac mae nifer o'i theulu yn dal i fyw yng Nghymru. Yn ystod ei gyrfa yn y Gwasanaeth Tramor bu'n gweithio yn Awstralia, Washington, Accra, Tel Aviv, Nairobi a Brwsel. Mae hi'n siarad Ffrangeg, Hebraeg, Swahili a Sbaeneg – ond dim Cymraeg! Hwyrach dylwn ei chymell i ymuno ar Gwrs Cymraeg Duolingo dros y We i ddysgu iaith y nefoedd!

Llongyfarchiadau i Owain Wyn Evans gynt o Rydaman ac yn ddyn y tywydd hefo'r BBC am ei gamp yn codi dros 3 miliwn o bunnoedd i Apêl Plant mewn Angen y BBC drwy ddrymio am bedair awr ar hugain. Tipyn o gamp yn wir!

Wel, dyna beth odd drama yn y gêm rygbi rhwng Cymru ac Awstralia ynte pan giciodd Rhys Priestland y bêl rhwng y pyst ar ddiwedd y gêm gan roi buddugoliaeth o drwch blewyn i Gymru 29-28.

Mae tîm pêl-droed Cymru wedi cael hwyl arni hefyd drwy ddod yn gyfartal 1-1 yn y gêm yn erbyn Gwlad Belg sy'n golygu eu bod yn dal ar y llwybr i gyrraedd Cystadleuaeth Cwpan Pêl-Droed y Byd yn Qatar yn 2022. Llongyfarchiadau a daliwch i lwyddo!

Rwan dyma gau pen y mwdwl am 2021 gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd well i bawb. Cadwch yn saff a mwynhewch yr Ŵyl er gwaethaf popeth!

**Cadwch mewn cysylltiad â'r Dinesydd ar Twitter trwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

## Sioe Syrcas Gyffrous yn dod i Gaerdydd

Bydd y cwmni syrcas o Gaerdydd, *No Fit State*, yn dod adref dros y Nadolig i berfformio ei sioe lwyddiannus, *Lexicon,* mewn pabell fawr yng Ngerddi Soffia rhwng 15 Rhagfyr 2021 ac 15 Ionawr 2022.

Mae *Lexicon* yn sioe syrcas hynod gyffrous sy'n llawn egni, hwyl a pherfformiadau unigol o'r safon uchaf. Bydd band yn chwarae cerddoriaeth fyw yn ystod y sioe hefyd, sy'n siŵr o ychwanegu at ddrama a chyffro'r digwyddiad. Dathliad hudolus a bywiog o'r byd syrcas yw *Lexicon*, ac mae'r sioe wedi'i disgrifio gan bapur newydd *The Guardian* fel 'barddoniaeth gorfforol gyda thalp mawr o hiraeth'.

Yn ôl y *Western Mail*, mae hon yn sioe 'atgofus, hardd, llawn bywyd, syfrdanol, swynol a hynod ddigrif'. Mae *No Fit State* wedi teithio'n helaeth gyda *Lexicon* yn y gorffennol, ond hwn fydd y cyfle olaf i weld y sioe yn fyw, felly mae'n addas iawn bod y cwmni yn dychwelyd i Gaerdydd ar gyfer y perfformiadau olaf.

Fel pawb arall ym myd y celfyddydau perfformio, bu'r cyfnod diweddar yn un anodd iawn i gwmni syrcas *No Fit State*. Yn ogystal â pherfformio'n fyw ledled y Deyrnas Unedig a thu hwnt, mae'r cwmni yn cynnal gweithdai a dosbarthiadau amrywiol i blant ac oedolion yn ei ganolfan ar *Four Elms Road* yng Nghaerdydd. Mae Covid-19 wedi cael effaith andwyol iawn ar y gweithgareddau cymunedol hyn, a bu'n rhaid i'r cwmni ddefnyddio dulliau rhithwir o gynnal gweithdai a digwyddiadau yn ystod y cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, yn raddol bach mae'r cwmni yn dechrau ailafael yn ei waith, ac mae pawb sy'n gysylltiedig â'r sioe yn edrych ymlaen yn fawr at y cyfle i berfformio *Lexicon* yn fyw o flaen cynulleidfa yng Nghaerdydd.

Bydd y babell yng Ngerddi Soffia yn cael ei gwresogi'n llawn ar gyfer y perfformiadau, a bydd modd i'r gynulleidfa brynu bwyd a diodydd poeth ac oer. Bydd pob perfformiad yn cydymffurfio â'r rheoliadau diweddaraf yn ymwneud â Covid-19, a bydd y cwmni yn cyfyngu ar nifer y tocynnau sydd ar werth ar gyfer rhai perfformiadau er mwyn darparu ar gyfer pobl sy'n awyddus i gadw pellter cymdeithasol. Mae *Lexicon* yn addas i'r teulu cyfan, ac mae *No Fit State* yn gwerthu tocynnau am bris rhatach ar gyfer teulu o bedwar. Mae holl fanylion y sioe a gwybodaeth am sut i archebu tocynnau ar gael yma: https://www.nofitstate.org/en/shows/lexicon/sophia-gardens-cardiff

Heb os, dyma gyfle heb ei ail i drigolion Caerdydd weld cwmni syrcas o'r safon uchaf yn perfformio yn ei ddinas ei hun. Byddwch yn siŵr o gael eich cyffroi a'ch cyfareddu gan gampau rhyfeddol perfformwyr *No Fit State*!

*Steven Jones*



***Llun o'r sioe Lexicon (Diolch i No Fit State am y llun).***

---

# Cymrodorion Y Barri

**Golwg ar dafodiaith y Wenhwyseg**

Mae reis a *chips* yn gweithio'n wych i Gymrodorion y Barri! Hynny yw, cynnal cyfarfod a'i ddarlledu trwy gyfrwng Zoom i'r aelodau sy'n methu ymuno â ni. Trwy gyfrwng y cyfrwng a help amrhisiadwy Dafydd Furnham sy'n *whiz-kid* gyda'r pethe ma, fe gawsom wledd o noson yng ngwmni'r Dr Iwan Wyn Rees o Ysgol y Gymraeg Caerdydd, sydd ei hunan yn *whiz-kid* gyda thafodieithoedd. Mae Iwan wedi bod yn gweithio'n ddiweddar ar yr iaith a siaredir yn y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia, ac y mae hefyd wedi creu adnoddau i helpu actorion a sgriptwyr i ddefnyddio a siarad tafodieithoedd gwahanol.



Mae cwmpawd daearyddol tafodiaith y Wenhwyseg yn cynnwys nifer o ardaloedd yn Ne-Ddwyrain Cymru, yr hen Sir Forgannwg a rhannau o Went. Daw'r enw o'r Lladin *Venta Silurium* (tref farchnad y Silwriaid). Dyma'r iaith a siaradai Iolo Morgannwg, ac ef oedd y cyntaf i rannu Cymru yn bedair ardal ieithyddol. Mae rhai nodweddion o'r Wenhwyseg fel yr 'a' ar ddiwedd geiriau yn hytrach nag 'e' (e.e.carrag, capal), yr 'æ' yn lle 'e' mewn rhai geiriau (cæth, tæd), a chaledu cytseiniaid (cecin, napod) yn weddol adnabyddus. Mae'r dafodiaith hefyd wedi dylanwadu ar Saeneg yr ardal, ac esgor ar y Wenglish gafodd ei stereoteipio yng nghyfres *Gavin and Stacey*.

Mae tystiolaeth gref bod trigolion Caerdydd wedi ymarfer ffurf o'r Wenhwyseg, a chlywsom glipiau sain gan Tom Lewis o 'Rwbina' (sylwch), a Mr a Mrs Hubbard yn sôn am Llysfæn, a Llanetarn. Heddiw mae tafodiaith Gymraeg newydd sbon yn ffurfio yng Nghaerdydd a'r Fro yn sgîl twf yr ysgolion Cymraeg.

Cawsom glywed engreifftiau difyr o'r dafodiaith a gweld clip gwych o ddwy wraig o'r Rhondda yn mwynhau clonc fach hyfryd.

Darlith arbennig. Diolch Iwan am adfer ein tafodiaith am un noson o leiaf.

Mae'r Cymrodorion yn cwrdd brynhawn Gwener, 17 Rhagfyr yng Nghanolfan Palmerston am 3.00 i ddathlu'r Nadolig.

# Colofn Natur

## *Caerdydd Oes y Paleocene*

**Gethin Jenkins-Jones**



Mae oes y deinosoriaid - y Mesosoic - yn gyfnod sy'n gyfarwydd iawn inni heddiw. Rhyfedd felly cyn lleied o ymwybyddiaeth sydd am yr oes a ddaeth nesaf - y Cenosoic (oes heddi!). Wedi'r cyfan, yn y cyfnod hwn yr esblygodd ein hanifeiliaid presennol a'r ecosystemau yr ydym yn dibynnu arnynt heddiw. Mae llu o greaduriaid anhygoel wedi bodoli dros y 66 miliwn mlynedd diwethaf sy'n haeddu cydnabyddiaeth ac am weddill ein taith, dathlwn pa rai a fodolai yng Nghaerdydd hyd at y presennol.

Pan darodd asteroid ein planed 66 miliwn o flynyddoedd yn ôl, rhyddhawyd egni cyfatebol i 2 filiwn o'n bomiau atomig mwyaf. Arweiniodd hyn at ddaeargrynfeydd, ffrwydradau folcanig a thanau fforest enfawr ledled y byd. Lle bu'r trawiad, dadleolodd 200,000 cilometr ciwbig o waddod - rhan fwyaf ohono yn fwyn sylffwr. Anweddodd peth ohono gan atal golau'r haul rhag cyrraedd y ddaear gan achosi cyfnod o oerfel, a chreuwyd stormydd ffyrnig o law asid. Bu'r effeithiau yn ddifrifol. Fe wnaeth yr holl ddeinosoriaid - grŵp a fu'n dominyddu'r tir am dros 165 miliwn o flynyddoedd - farw'n sydyn. Bu farw hefyd dros 80% o adar a llawer o'r mamaliaid cynnar. Yn eu habsenoldeb, trodd y byd yn symlach, ac yn dawelach.

Heddiw mae'r peiriant amser yn ein cymryd 63 miliwn o flynyddoedd yn ôl, at epoc cyntaf y Cenosoic - y Paleocene. Roedd Ewrop yn dechrau troi o fod yn glwstwr o ynysoedd i fod yn gyfandir newydd ac roedd Asia, am y tro, wedi'i gwahanu oddi wrthi gan fôr. Cerddwn i dywyllwch y nos i goedwig ar ochr cors eang. Mae'n fwyn ac yn llonydd, ac yn yr awyr ddigwmwl mae golau cryf lleuad lawn yn creu cysgodion gwan. Mae synau brogaod yn addo y bydd digon o bethau i'w gweld, felly cymerwn fflachlamp i chwilio amdanynt. Fe wnaeth amffibiaid oroesi effeithiau'r asteroid yn gymharol ddianaf, felly mae llawer o rywogaethau yma heno i ni eu mwynhau. Mae golau'r fflachlamp yn taro grŵp o frogaod mawr yn brwydro am gymar. *Palaeobatrachus* yw'r rhain - brogaod bron hanner troedfedd o faint. Mae eu pennau a'u traed yn enwedig o fawr ac, yn wahanol i frogaod yng Nghaerdydd heddiw, mae'r rhain yn treulio'u holl fywydau yn y dŵr. O bosib byddwn yn eu gweld eto ar hyd ein taith - fe wnaethon nhw fodoli hyd at Oes yr Iâ - a gyda lwc byddwn yn eu gweld yn ysglyfaethu ar bysgod neu drychfilod mawr.



*y lloer*

Ond mae hefyd amffibiaid yma sy'n dal i gael eu gweld heddiw. Mae 'bîp' cyson o ochr y gors yn denu golau'r lamp, ac ar y llawr gwelwn lyffant bydwraig - un o gyndeidiau y rhywogaethau sydd dal i'w gweld yn ne Ewrop heddiw. Mae'r llyffantod yma'n dangos mwy o ofal dros eu hepil na'r mwyafrif o lyffantod, efo'r tad yn cario'r wyau ar ei goesau tan eu bod bron iawn yn deor. Wrth gerdded ar ymyl y dŵr sylwn fod dwsinau ohonynt o'n hamgylch, yn ogystal â sawl math o salamandrau lliwgar - creaduriaid sy'n perthyn yn agos at fadfallod dŵr. Esblygodd y rhan fwyaf o anifeiliaid presennol Ewrop ar gyfandiroedd eraill, cyn mudo ac addasu ymhellach yma. Ond mae llinach llyffantod bydwraig a'r salamandrau yn Ewropeaidd i'r carn.

Mae synau o'r goedwig yn awgrymu bod pethau i'w gweld yno hefyd, felly cerddwn yn araf i weld a oes rhywbeth gerllaw. Heb anifeiliaid i fwydo ar y dail, mae coedwigoedd y Paleocene wedi gallu tyfu i fod yn dal ac yn ddwys, ac nid oes llawer ond rhedyn yn medru tyfu oddi tanynt (am y tro) oherwydd y diffyg golau. Mae siffrwd o'r dail yn dod yn nes at ein traed. Yng ngolau fflachlamp mae chwistlen eliffant fach (*elephant shrew*) yn cripian yn araf. Mae sawl math yn bodoli yn Affrica hyd heddiw wedi cadw eu nodweddion cyntefig, ond fe wnaeth eraill esblygu i'r eliffantod mawrion sy'n dominyddu'r safana heddiw. Rhywbeth andros o ryfedd!



***chwistlen eliffant***

Ni wnaeth anifail mwy na maint cath oroesi gwrthdrawiad yr asteroid, a chymerodd sbel hir i fioamrywiaeth adfer. Am y tro, mae hynafiaid pob un o'r anifeiliaid sy'n gyfarwydd i ni heddiw ddim ond yr un maint â llygoden neu wiwer, ond dros y cyfnodau sydd i ddod bydd rhai ohonynt yn esblygu a thyfu i fod ymhlith rhai o'r anifeiliaid mwyaf rhyfeddol a fu erioed. Wrth gerdded yn ôl i'r peiriant amser mae golau cynta'r dydd i'w weld ar y gorwel. Mae gwawr newydd ar gychwyn.

***Lluniau: Laura Giles***

## Llysgenhadon Ysgolion Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Yn dilyn cynllun peilot Llysgenhadon Ysgolion llynedd mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi ehangu'r cynllun eleni a phenodi 17 llysgennad o flwyddyn 12 a 13 er mwyn helpu i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector ôl-orfodol. Maent wedi'u lleoli mewn 9 ysgol uwchradd ar draws Cymru.

Eu prif rôl fel llysgenhadon fydd codi ymwybyddiaeth o fanteision addysg prifysgol cyfrwng Cymraeg ymhlith eu cyd-ddisgyblion. Byddant yn eu hannog i ymaelodi â'r Coleg, ymgeisio am yr ysgoloriaethau, bod yn rhagweithiol ar y cyfryngau cymdeithasol a rhannu negeseuon pwysig gan y Coleg.

Ymhlith y llysgenhadon y mae dau o Ysgol Plasmawr - Reagan McVeigh a Garan Thomas - ac un o Ysgol Bro Morgannwg - Lleucu Wiliam. Mae'r tri yn edrych ymlaen yn fawr at annog mwy i astudio drwy'r Gymraeg, datblygu sgiliau newydd a dod i adnabod y llysgenhadon eraill ar draws Cymru!

Yn ôl Lleucu, "Un fantais o astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol yw'r cyfleoedd sydd ar gael wedi graddio. Drwy fod yn ddwyieithog yn y byd gyrfaol, mae môr o bosibiliadau ar gael o defnyddio'r iaith. Mae'n bwysig bod gennym ni fel pobl ifanc Cymru yr hawl i ddefnyddio'n hiaith drwy gydol ein bywyd, yn




ogystal â mewn sefyllfaoedd proffesiynol."

Dywedodd Elin Williams, Rheolwr Marchnata y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, "Rydyn ni'n edrych ymlaen at gyd-weithio gyda llysgenhadon sy'n frwdfrydig dros y Gymraeg ac a fydd yn ysbrydoli eu cyfoedion yn yr ysgol i barhau gyda'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol a thu hwnt. Mae'r cynllun yma yn ffordd o gynnal perthynas agos gyda'r disgyblion ac yn rhoi profiadau a sgiliau gwerthfawr iddyn nhw."

I ddilyn hynt a helynt y llysgenhadon ysgol ewch draw i Instagram neu trydar @dyddyfodoldi #LlysgenhadonYsgol22

Gellir dod o hyd i wybodaeth am Ysgoloriaethau'r Coleg, gwerth hyd at £3000 ar y wefan: www.colegcymraeg/ysgoloriaethau

## Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg

**Gair gan y prifathro Mr Rhys Angell-Jones**

Mae'n anodd credu bod hanner tymor arall wedi hedfan heibio a'r Nadolig ar ein gwarthaf. Er gwaethaf heriau'r pandemig, braf oedd gweld yr ysgol yn dychwelyd i'w bwrlwm arferol gyda phrysurdeb y dysgu a'r addysgu, a'r amserlen gweithgareddau all-gyrsiol or-lawn. Carwn gymryd y cyfle hwn i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Dinesydd, a diolch am eich cefnogaeth ar hyd y flwyddyn!








**Hyderus?**

Ydych chi'n chwilio am anrheg Nadolig i ddiddanu'r teulu dros yr ŵyl? Yna holwch y disgyblion hyn am eu hawgrymiadau!

Llwyddodd Morgan, Osian, Mabli a Georgia o flwyddyn 9 i awgrymu cwestiynau addas ar gyfer gêm fwrdd ddwyieithog newydd, 'Hyderus'. Ymddengys eu cwestiynau hwy yn rhan o'r pecyn pan ofynnir i'r chwaraewyr ddyfalu eu hatebion gan geisio defnyddio'r amrediad lleiaf. Mae'r gêm 'Hyderus', sy'n ddatblygiad o'r gêm boblogaidd '*Confident*' ar werth ar draws Cymru gyfan. Ydych chi'n hyderus? Ewch i'w phrynu!

**Banc Bwyd**

Er mwyn dathlu'r cynhaeaf, cyfrannodd disgyblion yr ysgol gynradd fwydydd ar gyfer banciau bwyd lleol. Daeth y disgyblion i'r ysgol gyda chyfraniadau i Eglwys 'Coastlands' ar gyfer y 'Trussell Trust'. Roedd y diwrnod yn llwyddiant gyda'r ysgol yn gwneud gwahaniaeth i'r gymuned leol.

**Emily Davies**

Llongyfarchiadau i Emily Davies, blwyddyn 13, ar gael ei derbyn ar brentisiaeth hyfforddiant i fod yn Swyddog Bwrdd y Llong. Bydd y cwrs tair blynedd yn cynnwys elfennau daearyddol, ymwybyddiaeth ofodol a dyluniad y cwch, gan baratoi Emily i weithio ar y cwch o dan bob math o amgylchiadau. Fel rhan o'r prentisiaeth, bydd hi'n teithio'r byd gyda theithiau dros yr Iwerydd ac o amgylch Ewrop. Dywedodd Emily, 'rydw i'n hynod o ddiolchgar i'r ysgol am ei holl gefnogaeth a bydd hi'n fraint gallu cynrychioli Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg mewn swydd mor anghyffredin. Rwy'n gyffrous, ond eto yn nerfus ar hyn o bryd!'


# Bwytai Merch y Ddinas

*"Nigella Llawen!"*

**Lowri Haf Cooke**



Treuliais benwythnos hyfryd ddiwedd Tachwedd yng Nghaerdydd, yn 'damaid i aros pryd' cyn gwleddoedd mis Rhagfyr. Es i a'm chwiorydd i weld Nigella Lawson yn siarad yn y Theatr Newydd, a sôn am noson hyfryd tu hwnt. Ar drothwy mis y dathlu, roedd hi'n llawn cynghorion Nadolig – rhagor, yn wir, am hynny, yn y man.



Ond rhwng popeth dros y penwythnos, profais sawl bwyty dinesig 'newydd'. Ffefryn mawr gen i dros y misoedd a fu yw bar a bwyty Bacareto; mae'r awyrgylch yno ar Heol Eglwys Sant Ioan yn wefreiddiol ar nos Wener. Mor braf yw cael hel clecs wrth y bar, a 'gwylio pobol' unwaith eto! Mae'n ofod sy'n debyg i bar Curado gerllaw, ond Fenis yw'r ysbrydoliaeth, nid dinas Bilbao. Ges i fy hoff 'Spritz' Italicus, coctel Prosecco gyda blas sitrws a sbeislyd Bergamot, y perlysieuyn hwnnw sy'n un o nodweddion te'r iarll Llwyd. Ar y cyd â hwnnw? Plateidiau bychain o *ciccetti*; *bacala* (penfras hallt) ar dafell o fara surdoes, a *fritoli* (y nesaf peth at gacen gri Eidalaidd) yn 'bwdin' i gynhesu'r galon. *Molto Bene*!




Ro'n i 'nôl yn y dre ar gyfer nos Sadwrn, a mhrofiad cyntaf o fwyty newydd Kindle. Teg yw dweud i mi glywed adroddiadau cymysg o'r bwyty ar hyd yr hydref, ond roedd Tom a Will o gaffi Merc a Bulles Wines yn llawn canmol iddo, toc cyn i mi fentro draw i'r bwyty yng Ngerddi Soffia. A hithe'n noson rewllyd, roedd gen i haenau di-ri amdanaf, gan mai profiad bwyd yn yr awyr iach sydd yno - mewn ymateb i gyfyngiadau'r pandemig. Wel sôn am brofiad arbennig, wnaeth fy atgoffa o fwyta 'tu allan' yn y gwledydd Llychlynaidd; rhwng y blancedi, tân agored a'r goleuadau tylwyth teg; roedd fel bod yn ninas Stockholm neu Oslo dros y gaeaf. Coctel cartref ges i gyntaf; 'Gardd Soffia', er parch i'r lleoliad. Jin a blas rhosmari, mwyar duon a gellyg. Mewn gair? Bendigedig.

Mae Kindle yn frawd-fwyty i Nook ym Mharc Fictoria (a dros-dro yn Rhiwbeina dros fis Rhagfyr!), a'r un egwyddorion 'lleol a thymhorol' gyda phwyslais ar seigiau llysieuol a geir yno. A gan mai Nook by the River oedd fy hoff fwyty dinesig eleni (mae'n dychwelyd i lannau'r afon Taf gyda llaw flwyddyn nesa), es ati'n reit awchus i ddewis plateidiau o seigiau a gaiff eu rhostio ar dân agored. Roedd yr hwmws betys yn hynod flasus, a'r shwarma ysgewyll *(sprouts)* yn agoriad llygad - siom ar yr ochr orau o saig, a ffrwydriad yn wir o flasau. Ces i hefyd granc ar dost gyda rhudugl a saws Romesco, a boch yr ychen blas barbeciw Coreaidd. Ardderchog. Ond tra rydw innau'n hidio dim os nad yw'r bwyd yn chwilboeth, os yw'r awyrgylch a'r cwmni'n ddigon cynnes, awgrymodd fy ffrind mai dim ond teg fyddai rhannu'r ffaith i'r bwyd oeri'n gyflym ar noson a oedd bron a chyrraedd y rhewbwynt. Hefyd, dan yr amgylchiadau braidd yn gamarweiniol oedd hysbysebu 'cwrw sinsir poeth' ar y fwydlen, oherwydd fe gyrhaeddodd fel potel o bop ar ddiwrnod o haf! Cawsom glywed y byddai coctels poeth ar gynnig ym mis Rhagfyr. Rheswm da felly i ddychwelyd! Ystyriwch alw cyn sawru 'Gŵyl Golau Wefreiddiol' Parc Bute.


Toc cyn clwydo y noson honno, galwais yn Sibling yn y Rhath – bar coffi a gwin newydd a leolir ar Heol Lochaber. Byrbrydau a geir ar y fwydlen, ond ro'n i wir am gael blas o'u pwdin, sef y gacen gaws 'Gwlad y Basg' wedi'i llosgi; y fersiwn orau - yn fy marn i - yr ochr yma i Fae Biskaia! Yn fyglyd o ran blas eto'n ysgafn fel pluen, mae hefyd yn cynnwys chwa amheuthun o surni sitrws. Teg dweud i mi fynd i'r gwely'n llawn ond llawen y noson honno!

Ond 'nôl at sioe Nigella yn y Theatr Newydd ar nos Wener... Rhaid dweud mai ei llyfr hi, *Nigella Christmas* y byddai'n troi ato'n flynyddol ar gyfer ryseitiau ardderchog ei mins peis serennog a theisen sinsir sbeislyd. Mae estyn am ei llyfr yn ddefod dymhorol erbyn hyn, wrth wahodd hwyl – a blasau'r - ŵyl i'm cartref clyd. Wel, pan gafodd ei holi gan aelodau'r dorf am ei harferion hi dros Nadolig, roedd ei hatebion yn driw i'r hyn a welwn ar ei rhaglenni teledu. *'Goleuadau tylwyth teg'* yw ei hoff addurniadau hi, a ham rhost a 'Mac 'n Cheese 'oedd ei hoff bryd 'i blesio pawb o bob oed' ar Noswyl Nadolig. Ond wrth fynd ati i baratoi'r wledd ar y diwrnod mawr ei hun, cyngor syml iawn oedd gan y 'Dduwies Ddomestig'. 'Peidiwch â phoeni am amseru popeth yn berffaith. Yr unig beth i'w flaenoriaethu yw bod y platiau a'r grefi'n boeth' – cyngor a dderbyniwyd gan fonllefau o gymeradwyaeth! A gyda 'diolch yn fawr' i'r gynulleidfa Gymreig, mwynheodd pawb 'Nigella Llawen'! Dymunaf yr un fath i chi, ac i bawb sydd yn y tŷ. *Bon apetit* i chi gyd tan flwyddyn nesa!

Kindle, Gerddi Soffia, Pontcanna CF11 9SZ; 02922 801448

Bwytai Cymru / Canllaw Bach Caerdydd gan Lowri Haf Cooke (Gwasg Gomer) £9.99

# Llyfrau i'r Hosan Nadolig





## Cyfrinach Noswyl Nadolig
## Eurgain Haf

Mae *Cyfrinach Noswyl Nadolig* yn stori hudol sy'n datgelu bod anifeiliaid yn medru siarad ar Noswyl Nadolig! Mae amryw o anifeiliaid caredig, gan gynnwys cath, tylluan wen, ci defaid ac asyn, yn helpu Samir, ffoadur sydd yn cysgu yn y dociau, i gerdded i Fethlehem yng Nghymru, at deulu caredig a fydd yn gofalu ar ei ôl. Ceir lluniau hyfryd yr artist a'r dylunydd profiadol Sion Morris, sy'n rhoi naws arbennig i'r llyfr. Bu Eurgain a Sion yn cydweithio ar y llyfr blaenorol, *Y Boced Wag* a oedd yn ymdrin â mabwysiadu.

Yn ogystal â stori hyfryd Nadoligaidd mae i'r gyfrol wers bwysig iawn – sef i fod yn garedig i bawb, o bob cefndir a hil.

Mae Eurgain Haf yr awdur yn gweithio i'r elusen ryngwladol Achub y Plant.

Mae *Cyfrinach Noswyl Nadolig* gan Eurgain Haf ar gael nawr (£5.99, Y Lolfa).




## Lesotho'n Galw
## Gwenallt Rees


Rhai blynyddoedd yn ôl, yn dilyn cais gan Dolen Cymru am eglwysi i ddolennu gydag eglwysi yn Lesotho, gefeilliwyd Eglwys y Tabernacl yng Nghaerdydd gydag Eglwys Sefika. Ar y pryd roedd Gwenallt a Non Rees newydd ymddeol a derbyniodd y ddau â brwdfrydedd yr her i roi'r eglwys ar waith. Y mae'r llyfr yma yn gofnod o brofiadau'r ddau a'r gwaith a wnaeth y Tabernacl er mwyn lleddfu ychydig ar galedi bywyd yn Lesotho.

Meddai'r awdur, "Mae tri phwrpas i'r llyfr hwn, sef cofnodi'r profiadau bythgofiadwy a gafodd Non a minnau wrth efeillio Eglwys Tabernacl, Yr Ais gydag Eglwys Sefika yn Lesotho; diolch i'r 42 eglwys a estynnodd wahoddiad i ni i rannu'r stori hon gyda nhw, ynghyd â'r cymdeithasau a'r llu unigolion a fu'n gefn i'r fenter o'r cychwyn ac hyd heddiw; a'n hawydd i roi tystiolaeth i bawb o'r hyn a wnaethpwyd â'u cyfraniadau.

Pris y llyfr - £5.

Ar gael drwy'r awdur: gwenalltanon@virginmedia.com; hefyd yn Siop Cant a Mil, Caban a'r Felin.

## Datod
## Beti George




Gwead perffaith a chymhleth yr ymennydd yn *datod* - wele Dementia.


"Doedd gen i ddim syniad beth fyddai maint y frwydr" medd un sy'n gofalu am ei gŵr sy' â Dementia Lewbody. Mae'n bennod onest ddirdynnol am un sy'n brwydro'n ddibaid am y mymryn lleia o gefnogaeth. Erbyn hyn mae'n talu dros ddwy fil o bunnoedd yr WYTHNOS i gael rhywfaint o help. "Does gan bobl yn gyffredinol ddim diddordeb tan i dementia gyffwrdd â nhw yn uniongyrchol", meddai.

Meddai'r awdur, "Mae'r gyfrol yma yn datgelu'r gwir am y clefyd dinistriol yma a'r ffordd mae e'n effeithio ar deuluoedd a chymdeithas a'm dyhead yw ar iddi godi ymwybyddiaeth bod rhaid gweithredu i fynd i'r afael â'r diffygion difrifol o ran gwasanaethau gofal yn y gymuned, a'r gost - anfoesol yn fy marn i - o dalu am ofal dementia.

Bu'n fraint golygu'r gyfrol bwysig hon - profiadau 17 o unigolion yn trafod eu profiadau o dementia - o ddwy sy'n byw gyda dementia, gofalwyr di-dâl, anwyliaid a theulu i'r rheiny sy'n gweithio'n ddygn i wella bywydau pobl â dementia, gan gynnwys seicolegydd a gwyddonydd sydd ymhlith y mwyaf blaenllaw yn y byd yn eu gwahanol feysydd. Ceir hefyd bennod sy'n cynnig mwy nag un llygedyn o obaith am driniaeth a allai reoli'r clefyd."

Pris £8.99 Y Lolfa.

## O'r Cyrion i'r Canol
## Ieuan Wyn Jones




***Ieuan Wyn Jones yn arwyddo copïau o'i hunangofiant yn Caban. Yn y llun hefyd y mae Elin Edwards, perchennog y siop.***

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar nos Lun, 15 Tachwedd, cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Phil Jonathan o Brifysgol Caerhirfryn (Lancaster) ar y testun Gwyddor Data ar Frig y Don. Daw Phil o Odre'r Graig yng Nghwm Tawe ac y mae hefyd yn canu gyda Chôr Rhuthun. Aeth Phil â ni ar daith gyflym trwy y ddisgyblaeth o Wyddoniaeth Data gan gyffwrdd â'r cysylltiadau Cymreig sydd yn sylfaen i'r maes. Mae theorem y Parchedig Thomas Bayes yn un enwog iawn ym maes ystadegaeth *(statistics)* ond mae nifer yn awgrymu mai theorem Bayes-Price y dylid galw hon, gan mai Richard Price o Langeinwyr ger Pen-y-bont oedd yn gyfrifol am gyflwyno a dehongli gwaith Bayes ar ôl iddo farw. Roedd Richard Price yn un o gewri Cymru mewn nifer o feysydd gan gynnwys ystadegaeth, athroniaeth ac roedd yn arloeswr fel un o'r actiwarïaid cyntaf.

Yna soniodd Phil am broblemau gyda ffitio fformiwlâu i ddata, rhywbeth sy'n gyffredin iawn mewn gwyddoniaeth cyn trafod ambell i broblem ystadegol, fel sawl cymar posib sy'n rhaid i chi gwrdd cyn eich bod yn dod o hyd i rywun y gallwch briodi! Nododd Phil ein dyled i'r Cymry William Jones am y symbol pi (π) a Robert Recorde am yr arwydd hafal (=) a phoblogeiddio yr arwydd adio (+): byddai mathemateg yn edrych yn wahanol iawn hebddynt. Yna aeth i sôn am un o hoff arfau yr ystadegydd sef dosraniadau *(distributions)* gan sôn yn arbennig am ddosraniad Pareto cyffredinoledig, sydd yn ein galluogi i broffwydo gwerthoedd eithafol mewn set o ddata.

Roedd hyn i gyd yn arwain at brif destun ei ddarlith sef digwyddiadau eithafol ar y môr. Gellir cyfrifo y tebygolrwydd y bydd digwyddiad morol yn achosi niwed i strwythur fel rig olew, cwch neu adeilad arfordirol. Gallwn gynnwys ffactorau amgylcheddol megis dyfnder y môr a chryfder y gwynt i greu model mathemategol gwerthfawr o'r risg. Wedi'r sgwrs cafwyd trafodaeth ddiddorol a soniwyd am Gwilym Meirion Jenkins yr ystadegydd a pheiriannydd systemau o Dre-gŵyr a weithiodd hefyd ym Mhrifysgol Caerhirfryn.

*Rhys Morris*

Mae ein darlithoedd nawr wedi eu recordio, cysylltwch â cymdeithas.wyddonol@gmail.com os hoffech eu gwylio.

# Merched y Wawr Caerdydd

Stori bersonol am newid llwybr gyrfa ond hefyd cenhadaeth angerddol am newid ffordd o fyw a gawsom gan Alwen Siop Iechyd Da, Yr Eglwys Newydd.

Clywsom am ymrwymiad Alwen a'i theulu i fyw yn symlach, iachach a mwy cynaliadwy. Rhan o hyn oedd sefydlu Iechyd Da yn siop gwerthu nwyddau iach o gwmnïau egwyddorol o Gymru neu o fewn pellter rhesymol i'r siop. Dangoswyd llawer o ddiddordeb yn yr ystod o nwyddau a ddangosodd Alwen i ni. Daeth yn amlwg drwy'r sgwrs fod Iechyd Da fel siop bentre hen ffasiwn, yn croesawu pobl ac yn siop ag iddi naws gymunedol sy'n galluogi a chefnogi pobl i ail-lenwi jariau a photeli. Soniodd Alwen am symud i brynu heb wastraff - dod â rysáit yno a phrynu'r hyn sydd ei angen ar gyfer hynny yn unig, e.e. cynhwysion cacen Nadolig.




Wrth hyrwyddo ac addysgu am sut i wneud dewisiadau gwell, roedd neges Alwen yn glir i ni beidio gorgymlethu ond i fod yn fwriadol yn ein hymrwymiad i newid drwy gymryd camau bach.

Cyflwynodd ni hefyd i wasanaeth pwysig sydd yn cael ei gydlynu o'r siop sef cynllun Tetra Pak sydd yn ailgylchu stwff na ellir ei ailgylchu gan y cyngor. Mae rhestr o'r hyn y gellir ei ailgylchu drwy'r cynllun ar dudalen gweplyfr y siop. Drwy'r bartneriaeth yma cododd Alwen £1000 ar gyfer elusen Felindre.




Mor braf yw clywed am fenter newydd sy'n ymrwymo at fywyd iachach, at gymunedau mwy cynaliadwy a hynny drwy bartneriaethau Cymreig, a thrwy'r cyfan yn hyrwyddo'r Gymraeg hefyd.

***Uchod: Alwen a'r teulu***
***Ar y chwith: Silffoedd y siop***

# Ffloc



Ddiwedd mis Hydref, agorwyd drysau Ffloc am y tro cyntaf – caffi a phantri bach newydd sbon ar Heol Ddwyreiniol y Bont-faen yn Nhreganna (drws nesaf i siop y Co-op). Mae'n llecyn braf i hamddena gyda phaned a chacen lle cewch wylio'r byd a'i bethau'n gwibio heibio.

Mae Ffloc yn gweini brecwast, cinio, cacennau a phaneidiau. Mae'r salads yn lliwgar, y toesenni Portiwgeaidd o'r Rhath yn flasus a'r coffi yn fendigedig! Mae'r fwydlen brechdanau caws wedi'u crasu wedi bod yn arbennig o boblogaidd ers y dechrau – gallwch ddewis caws a ham, rysáit figan neu hyd yn oed gig eidion blas Coreaidd! Ceir digon o ddewis i lysieuwyr, figaniaid a'r rheiny sy'n dilyn deiet di-glwten. Mae bwydlen Nadoligaidd newydd ei lansio hefyd.

Mae Ffloc yn gwmni bach annibynnol sy'n falch o roi lle canolog i gynnyrch Cymreig ar y fwydlen ac ar silffoedd y pantri. Gallwch brynu copïau o gylchgronau poblogaidd yno fel *Golwg*, y *Cymro* a'r *Dinesydd*, cardiau pen-blwydd / Nadolig dwyieithog, anrhegion bach fel pyrsiau lledr, darluniau a chrochenwaith. Mae




cynnyrch Halen Môn a bwydydd Sbaenaidd drwy law Curado o ganol y ddinas hefyd ar y silffoedd. Mae yno hefyd gasgliad o lyfrau dwyieithog i blant, nofelau byrion i'r arddegau, llyfrau Cymraeg a Saesneg i oedolion a chyfres *Amdani* i ddysgwyr. Mae'n lle delfrydol i brynu anrheg fach munud olaf i ffrind... neu i chi'ch hun!

Brynhawn Sadwrn 11 Rhagfyr, bydd Ffion Dafis yn Ffloc o 16:00–18:00 yn llofnodi ei chyfrol ddiweddaraf, *Mori*. Bydd yn gyfle i chi gwrdd â'r awdur, siopa Nadolig yn y pantri a manteisio ar 20% oddi ar ddisgledi a chacennau. Galwch draw ar y ffordd i gig Al Lewis yn Eglwys Sant Ioan rownd y gornel!

Cadwch olwg ar gyfrif Twitter ac Instagram Ffloc i weld beth sydd ar y gweill a heidiwch i'r gorlan newydd hon lle ceir rhywbeth at ddant pawb!

Oriau agor: Mawrth – Gwener (08:00 – 17:00)
Sadwrn (09:00 – 17:00) Sul – Llun – gorffwys!

*Lowri Roberts*



## Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd a'r Anrheg Orau!

Ydych chi wedi llwyddo i gael anrheg Nadolig i bawb sydd ar eich rhestr – ffrindiau, teulu, yr ifanc, y rhai hŷn?

Mae rhestr Nadolig Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd yn un hir iawn, iawn!! Mae cannoedd o enwau ar y rhestr - enw pob plentyn sy'n mynychu ysgol Gymraeg – ac oherwydd maint y gwaith gofynnwyd i dîm Agor y Llyfr helpu i ddarparu'r anrheg fydd yn cael ei hanfon i holl ysgolion Cymraeg Caerdydd.

Beth ydy'r anrheg?

Cyflwyniad fideo o hanes y Seryddion yn teithio i chwilio am y brenin newydd yr oedd Duw wedi'i addo i'r byd. Wedi ymarfer ymlaen llaw, a sicrhau'r dillad priodol, aethpwyd ati i ffilmio'r stori dros Zoom, pawb yn ei gartref ei hun, pawb yn gwneud ei waith yn rhagorol – y tri seryddwr, Herod frenin, Cynghorwyr y Brenin, y seren, Mair, Joseff a'r baban a'r cyflwynwyr.




Fel arfer mae anrhegion yn cael eu cadw tan ddiwrnod Nadolig – ond gobeithio'n wir y bydd ysgolion Cymraeg yr ardal yn agor yr anrheg werthfawr hon cyn diwedd y tymor a'i chyflwyno i bob disgybl er mwyn iddyn nhw glywed am gariad Duw yn Iesu Grist.

**Nadolig Llawen gan dîm Agor y Llyfr!**

# Merched y Wawr Bro Radur

Ar nos Fercher, 3 Tachwedd, ein siaradwr gwadd oedd Mr Allan Cook o Radur. Testun y sgwrs oedd 'Te Tsieina a Thwyll'. Yn garedig iawn, fe rannodd y siaradwr o'i gyfoeth o wybodaeth am hanes datblygiad llestri tsieni o'r dechreuadau hyd heddiw, gan ddiweddu gyda hanes crochendai megis Abertawe, Ewenni, Llanelli a Nantgarw.

Gyda chymorth sleidiau, cawsom wledd o luniau o'r llestri drwy'r canrifoedd. Disgrifiwyd hanes datblygiad y llestri cynnar oedd heb sglein (*glaze*), y llestri pridd gyda sglein, ac yna'r llestri porslen fyddai'n cael eu llosgi mewn tân i gynnwys y gwahanol liwiau. Soniwyd am ansawdd y llestri cynharaf, a'r arfer o roi marciau ar gefn y llestri i ddynodi eu tarddiad – arferiad sy'n parhau hyd heddiw.

Cawsom hanes y gystadleuaeth a dyfodd rhwng Lloegr, o dan y frenhines Elisabeth 1, a'r Iseldiroedd, a deall i'r masnachu â Tsieina barhau hyd at ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Dyna pryd y dechreuodd ffatrïoedd yn Ewrop gynhyrchu llestri safonol tebyg i'r rhai yr oedd Tsieina wedi bod yn eu darparu tan hynny.

Cyfeiriodd Allan at y *Nanking Cargo* a ddarganfuwyd yn 1986 ym môr De Tsieina wedi i'r llestri fod yn y môr am 235 o flynyddoedd. Darganfuwyd 100,000 darn o borslen, a werthwyd am bris uchel iawn.

Difyr oedd deall i'r llestri '*Delf*' cynnar ddod i Hampton Court gyda'r brenin William o Oren o'r Iseldiroedd pan ddaeth ef a'i wraig Mari i'r orsedd. Difyr hefyd oedd deall i William Billingsley, o Swydd Derby, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg deithio'r holl ffordd i Nantgarw i geisio cynhyrchu llestri tsienia o ansawdd unigryw. Cawsom ein hannog i ymweld â'r crochendy yn Nantgarw a phrofi'r croeso brwdfrydig a estynnir i ymwelwyr yn y ganolfan hanesyddol dan arweiniad Charles Fountain a'r tîm o wirfoddolwyr.

Bydd ein cyfarfod nesaf fel cangen ar nos Fercher 5 Ionawr, pryd y bydd Sioned Lewis yn sôn am y rhaglen *Gwesty Aduniad*.

*Gwen Emyr*



***Allan gydag un o'i hoff blatiau o grochendy Abertawe***

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Croesawodd Shirley Williams, ein Llywydd, bawb i gyfarfod cyntaf arferol y Gymdeithas ers tro, ac roedd yn falch o weld pawb unwaith eto. Croesawyd yr aelodau newydd ac anfonwyd ein cofion at y rhai nad oedd yn gallu bod yn bresennol. Diolchodd i'r Pwyllgor am eu gwaith wrth wneud y trefniadau manwl ar gyfer ein cyfarfod.

Anrhegwyd ein Cyn Lywydd Falmai Griffiths â blodau ac englyn o waith y Prifardd Aled Gwyn, fel cydnabyddiaeth am ei gwasanaeth o 15 mlynedd fel Llywydd y Gymdeithas.

Cyflwynwyd ein siaradwr gwadd, sef ein Llywydd Anrhydeddus Gwilym Roberts, i draddodi darlith i ddathlu hanner can mlwyddiant y Mudiad Meithrin. Dywedwyd nad oedd angen cyflwyniad ar ein Llywydd am ei fod yn adnabyddus iawn o fewn Rhiwbeina, Caerdydd, Cymru a'r Ariannin! Fel un o gymwynaswyr y Gymraeg, addas felly oedd i Gwilym egluro'r amodau hanesyddol a fu'n gyfrifol am dwf y Gymraeg yn ogystal a'r ffactorau a fu'n niweidiol i'r Gymraeg dros y canrifoedd.



O safbwynt Rhiwbeina, y cam arwyddocaol oedd sefydlu Y Cylch Meithrin, 62 mlynedd yn ôl, a hynny cyn sefydlu'r Mudiad Meithrin. Wedi hynny fe sefydlwyd Uned Gymraeg yn Ysgol Llanishen Fach, ac y mae bellach 20 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd o fewn y ddinas. Yn wir roedd gan drigolion Rhiwbeina ran allweddol yn sefydlu'r Mudiad Meithrin.

Diolchwyd i Gwilym am ei waith a'i neges bositif a chadarnhaol. Mynegwyd hefyd y dylai'r ddarlith fod ar gael mewn print er mwyn cael cynulleidfa ehangach.

Ein cyfarfodydd nesaf:
nos Lun, 20 Rhagfyr - Cerdd a Chân Nadolig,
nos Lun, 17 Ionawr: Non Rhys – Natur a mi.

# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



**Caethwasiaeth Jamaica, Bedyddwyr Hengoed a Solomon Nutry** (Rhan 1)

Dechreuodd y fasnach mewn caethion du o ddifrif yn hanes Prydain yng nghanol yr 17eg ganrif gyda datblygu'r diwydiant siwgr yn ynysoedd y Caribî, ac yn arbennig ar ôl i Jamaica ddod i feddiant Prydain yn y 1650au.

Chwaraeodd nifer o Forganiaid Llanrhymni ran amlwg ym mywyd Jamaica yn y cyfnod cynnar hwnnw. Daeth Syr Edward Morgan, er enghraifft, yn ddirprwy-lywodraethwr Jamaica yn 1664. Bu ei fab-yng-nghyfraith, Robert Byndloss, yn brif ustus Jamaica, a daeth mab-yng-nghyfraith arall iddo, yr herwlongwr enwog Harri Morgan, yntau'n ddirprwy-lywodraethwr yr ynys yn 1674. 'Llanrumney' a 'Penkarne' oedd enwau dwy o blanhigfeydd Harri Morgan yn Jamaica, ac adeg ei farw yn 1688 roedd ganddo 131 o gaethion.

Yn ystod y 18fed ganrif daeth siwgr yn rhan hynod bwysig o'r economi; mor bwysig, fe ddywedir, ag y bu dur yn y 19eg ganrif ac olew yn yr 20fed ganrif. Roedd angen tair gwaith cymaint o gaethweision i drin y cnydau siwgr ag i drin cnydau eraill, a dyna ran o'r esboniad am y cynnydd mawr yn y fasnach mewn caethion du a welwyd wrth i'r 18fed ganrif fynd yn ei blaen. Erbyn y 1730au, Prydain oedd prif fasnachydd y byd mewn caethion croenddu, a chludwyd dros dair miliwn ohonynt, dan amodau erchyll, gan longau Prydeinig o Orllewin Affrica i'r Byd Newydd, y rhan fwyaf ohonynt i'r Caribî, cyn i Senedd Prydain ddileu'r fasnach yn 1807.

Dechreuodd yr ymgyrch i ddileu'r gaethfasnach fagu nerth yn y 1780au. Elfen bwysig yn yr ymgyrch honno oedd yr ymgais i berswadio pobl i ymwrthod â siwgr a oedd wedi ei gynhyrchu trwy lafur caethion, ac erbyn 1792 llwyddwyd i gael dros 300,000 o bobl Prydain i ymatal rhag defnyddio siwgr o'r Caribî. Un a fu ar flaen y gad yng Nghymru yn ceisio dwyn perswâd ar bobl i ymwrthod â chynnyrch 'Ynysoedd y Siwgr' oedd Morgan John Rhys (1760–1804), a aned ar fferm y Graddfa ger Llanbradach yng Nghwm Rhymni a'i fagu ymhlith y Bedyddwyr yn hen eglwys enwog Hengoed.

Cymeriad egnïol ac aflonydd oedd Morgan John Rhys a chanddo argyhoeddiadau radicalaidd ac efengylaidd cryf. Bu'n fyfyriwr yn Athrofa'r Bedyddwyr ym Mryste ac yn weinidog am gyfnod mewn eglwys Fedyddiedig ym Mhen-y-garn ger Pont-y-pŵl. Bu hefyd yn cenhadu yn Ffrainc adeg y Chwyldro, gan sefyll ar adfeilion y Bastille. Yna, yn 1794, ymfudodd i America, lle y parhaodd i ymgyrchu'n ddiflino yn erbyn caethwasanaeth.

Bryste oedd un o brif ganolfannau Prydain ar gyfer y fasnach mewn caethion, ond roedd hefyd rai yn y ddinas a oedd yn ffyrnig yn erbyn y fasnach honno, gan gynnwys llywydd radicalaidd Athrofa'r Bedyddwyr (a Chymro o dras), Dr Caleb Evans (1737–91); ac ymddengys mai yn ystod ei gyfnod yn yr Athrofa ym Mryste yn 1786–87 y cafodd Morgan John Rhys ei danio â'r egwyddorion radicalaidd a fyddai'n llywio gweddill ei fywyd.

Un o gyfraniadau pwysig Morgan John Rhys i'r ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth oedd y pamffledyn 16-tudalen a gyhoeddodd yn 1792 yn dwyn y teitl *Dioddefiadau miloedd lawer o ddynion duon, mewn caethiwed truenus yn Jamaica a lleoedd eraill; yn cael eu gosod at ystyriaeth ddifrifol y Cymry hawddgar, er mwyn ceisio eu hennill i adael suwgr, triagl, a rum.* Mae'n llyfryn sy'n gadarn ei strwythur, yn llifo'n rhwydd o ran ei arddull, ac yn nerthol ei ergydion.

Pwyslais y pamffledyn o'r dechrau'n deg yw bod caethiwed o bob math 'yn afresymol, yn anghyfiawn, a chwbl groes i natur'. Y mae hefyd, meddai, yn gwbl groes i'r grefydd Gristnogol, sy'n gorchymyn i bobl 'wneuthur i eraill fel yr ewyllysiem i eraill wneuthur i ninnau' – pwyslais cyffredin iawn yng ngweithiau'r diddymwyr.

Nodir ar y dechrau mai diben y llyfryn yw hysbysu'r Cymry uniaith o'r gost mewn dioddefiadau dynol a oedd y tu ôl i'r siwgr 'a arferir gennych' ac a gynhyrchwyd yn Jamaica, Barbados ac ynysoedd eraill yn y Caribî. Yna, yng nghorff y llyfryn, disgrifir y cam-drin a ddeuai i ran y bobl ddu. Darlunnir y gwerthu a'r prynu yn Affrica a'r fordaith hunllefus i'r Caribî, 'mewn aflendid a drewdod nad yw weddus i'w enwi'. Wedyn, disgrifir caledi diwrnod gwaith ac amodau byw truenus y caethion, cyn portreadu mewn termau graffig a chignoeth y cosbedigaethau cïaidd a ddeuai i'w rhan, a hynny am y peth lleiaf.

Â'r pamffledyn yn ei flaen i danlinellu'r ffaith nad yw 'trigolion duon Affrica' yn waeth nag eraill o ddynol-ryw, o ran eu deall a'u cyneddfau, eu hymddygiad a'u serchiadau. Pam felly, gofynna Morgan John Rhys, 'y gwneir yr holl lanastra yma ar greaduriaid rhesymol Duw, a'n *cyd-radd ninnau* ymhob ystyr o bwys?' Yn unig, meddai, 'er mwyn cael dwylo ddigon i […] godi a pharatoi siwgr i drigolion moethus Ewrop, ac yn enwedig trigolion Lloegr a Chymru'. Ni, felly, sy'n gyfrifol am ddioddefaint y caethion. Y mae 'gwraidd y ddrwg', meddai, gyda *chi* sy'n prynu ac yn bwyta siwgr.

Yn rhan ola'r pamffledyn, pwysleisia pa mor bwysig yw hi i'w ddarllenwyr wneud eu rhan, er mwyn bod 'yn *rhydd oddi wrth waed*, beth bynnag a wnelo eraill', ac mai eu dyletswydd yw cefnogi achos y caethion du, gan 'mai'r un Duw a wnaeth y bobl dduon a ninnau, mai'r un Tad o'r nef sydd i ni oll'; a therfyna drwy eu rhybuddio y bydd Duw yn galw gorthrymwyr i gyfrif yn

Nydd y Farn. Mae hwn yn llyfryn trefnus, bywiog a grymus; ac mae'r pwyslais ynddo ar ein cyfrifoldeb personol ni bob un i weithredu yn erbyn camarfer ac anghyfiawnder yn rhoi iddo dinc cyfoes iawn.

Chwaraeodd cerddi ran bwysig yn y gwaith o ddylanwadu ar y farn gyhoeddus yn ystod yr ymgyrch i ddileu'r fasnach mewn caethion, a gwelwn hyn yn achos Morgan John Rhys, oherwydd tua'r un adeg ag yr ymddangosodd y pamffledyn am 'ddioddefiadau miloedd lawer o ddynion duon', argraffwyd cân o'i waith gan yr un wasg (sef gwasg John Daniel yn Heol y Brenin, Caerfyrddin) yn dwyn y teitl *Achwynion dynion duon, mewn caethiwed truenus yn Ynysoedd y Suwgr*. Mae'n gerdd o ddeuddeg pennill wyth llinell. Fel pamffledi bach yr argraffwyd baledi fel arfer yn y cyfnod hwnnw, ond mae'r faled hon ar ffurf taflen faledol blyg-mawr – hynny yw, mae fel rhyw fath o boster.

Apêl yw'r gân gan y caethweision du yn y Caribî i'r 'Brutaniaid' ymwrthod â siwgr a gynhyrchwyd trwy eu llafur. Dyma (wedi diwygio'r orgraff) y ddau bennill agoriadol:

Gwrandewch, Frutaniaid mwynion,
    Achwynion dynion du,
Sy'n goddef blin gaethiwed,
    Gwae ni, o'ch plegid chwi:
O Affrica fe'n dygwyd,
    Mewn modd lladradaidd gwŷs,
I godi pethau melys
    Eu blas i blesio'r blys.

Pan fo'ch yn gweled siwgr,
    O! cofiwch fel y cawd
Trwy lafur annaturiol
    Cystuddiol caethion tlawd:
Os yw yn felys gennych,
    Bu'n chwerw dost i ni:
Yn sydyn yr arswydech
    Pe clywech chwi ein cri.


Morgan John Rhys
(1760 - 1804)

Yn dilyn ceir yn y gerdd yr elfennau hynny sydd mor gyfarwydd yng ngherddi gwrthgaethwasaidd y cyfnod yn gyffredinol – y pwyslais fod pobl ddu a gwyn 'o'r un gwaed' ac yn blant i'r un Tad nefol; y rhwygo ar yr uned deuluaidd a ddeuai i ran y caethion; erchylltra'r fordaith o Affrica, a'r driniaeth farbaraidd 'o flaen y curwyr cïaidd' a oedd yn disgwyl y rhai a gyrhaeddai ben y daith.

Yna, yn y pedwar pennill olaf ceir apêl i'r 'Brutaniaid' – sydd (meddid) yn 'rhai o wrol fryd / I amddiffyn achos rhydd-did / Trwy amryw barthau'r byd' – i fynnu 'driniaeth well / I'r lluoedd sydd yn gaethion / Yn eich ynysoedd pell', a'u gwaredu o'u 'cyflwr caeth'. Ac o ddangos tosturi, ac ymwrthod â 'melusderau / Sy wedi costi i ni / Och'neidiau trymion filoedd, / Diferion gwaed heb [ri']', bydd trigolion Prydain yn dangos fod 'teimlad dynol gennych / 'R un modd â *dynion du*'.

Fel y pamffledyn, mae'r gerdd hon yn llifo'n rhwydd ac yn effeithiol ei hergydion, a rhyngddynt gwnaeth y ddau gyhoeddiad gyfraniad pwysig i'r ymgyrch yng Nghymru ac yn y Gymraeg yn erbyn y fasnach mewn caethion. Ac mae'n werth pwysleisio hefyd y cafwyd sawl cyfraniad pwysig arall gan Morgan John Rhys i'r ymgyrch honno, pe bawn ond yn nodi cynnwys ei gylchgrawn arloesol, *Y Cylchgrawn Cynmraeg* (1793–94), a rhai o'i emynau, megis yr un sy'n sôn yn filenaraidd am y 'wawr yn torri draw' a'r dydd yn agosáu pan fydd 'gorthrymwyr byd [yn] crynu i gyd':

Mae prynu a gwerthu dyn
    Yn awr bron dod i ben;
Ni waeth pwy liw neu lun
    Fo dynion is y nen:
Maent oll yn wrthrych cariad rhad,
Maent oll yn perthyn i'r un Tad.

Tua'r un adeg ag y cododd y mudiad i ddileu'r fasnach mewn caethion yn niwedd y 18fed ganrif, fe gododd mudiad cenhadol Protestannaidd grymus ym Mhrydain, ac roedd y ddau yn rhan o'r un symudiad i raddau helaeth, oherwydd Cristnogion efengylaidd oedd asgwrn cefn y ddau fudiad. Y duedd yn aml yn ein dyddiau ni yw portreadu cenhadon Cristnogol fel rhai yn gweithio law yn llaw â milwyr a masnachwyr mewn prosiect 'imperialaidd', a chanddynt Feibl yn y naill law, gwn yn y llall, ac arian yn eu pocedi. Gwaetha'r modd, fe gafwyd rhai enghreifftiau o ymddygiad o'r fath, mae'n wir, ond yn gyffredinol bu'r cenhadon yn ddraenen yn ystlys masnachwyr, milwyr a chaethfeistri fel ei gilydd; ac nid oes enghraifft well o hynny na Jamaica, fel y gwelwn y tro nesaf.

(*I'w barhau*)

## Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd 2022

Ddydd Sadwrn, 22 Ionawr bydd Eisteddfod Gadeiriol Caerdydd yn ei hôl yn Ysgol Plasmawr. Hon fydd eisteddfod leol gyntaf Cymru i gael ei chynnal lle bod pobl yn cael dod ers bron i ddwy flynedd. Ry'n ni fel pwyllgor yn edrych mlaen yn fawr i'ch croesawu chi i gyd yn ôl, yn ddiogel, a chan ddilyn rheolau COVID-19 Llywodraeth Cymru.

Mae'r dyddiad cau ar gyfer y cystadlaethau gwaith cartref wedi mynd erbyn hyn, a bydd y beirniaid yn mynd at eu gwaith. Mae manylion y cystadlaethau llwyfan i gyd ar ein gwefan eisteddfodcaerdydd.cymru. Mae rhywbeth ar ddant pawb, gobeithio! Mae cyfle i chi gofrestru ar gyfer cystadlu, ac ry'n ni'n eich annog i wneud, yn enwedig ar gyfer y cystadlaethau unigol, er mwyn i ni allu trefnu rhagbrofion os bydd angen.

Ry'n ni hefyd yn chwilio am noddwyr ar gyfer yr eisteddfod. Gallwch noddi cystadleuaeth benodol (gan gynnwys cystadlaethau gwaith cartref), neu wneud cyfraniad i'n helpu i gynnal yr eisteddfod. Os hoffech gyfrannu, dylech anfon e-bost at cyswllt@eisteddfodcaerdydd.cymru. Yn ogystal, fel ym mis Ionawr 2019, bydd angen gwirfoddolwyr arnom i helpu'r eisteddfod redeg ar y diwrnod. Felly os hoffech wirfoddoli ar y diwrnod, anfonwch e-bost atom yn nodi eich argaeledd. Bydd shifftiau yn para tua dwy awr.

Gan obeithio eich gweld chi ym mis Ionawr!

# Gwylio'r Geiniog

## Huw Aled Accountants



1. Os yw'ch car ar gytundeb '*PCP*' sydd ar fin dod i ben, gwiriwch y pris y gallwch chi brynu'r car a gafodd ei gytuno ar ddechrau'r cytundeb. Gyda phrisiau ceir ail-law mor uchel, efallai gallwch wneud elw trwy brynu ac ailwerthu'r car. Gwerthodd Huw gar trwy Cazoo a chafodd yr arian ei drosglwyddo i'w gyfrif banc ar yr un diwrnod.
2. Mae nifer wedi colli arian yn ddiweddar i sgamiau arian rhithiol ('*cryptocurrency*'), gan gynnwys sgam yn ymwneud ag arian rhithiol a ysbrydolwyd gan y gyfres Netflix, '*Squid Game*'.

   Sicrhewch eich bod yn cwblhau gwaith ymchwil trwyadl cyn prynu arian rhithiol. Hyd yn oed gyda chynigion arian rhithiol dilys, mae'n hawdd iawn ei brynu ond yn aml yn anodd iawn i chi gael eich arian yn ôl.
3. Mae buddsoddiadau moesol neu '*ESG*' wedi cael mwy o sylw yn ddiweddar yn sgil cynhadledd COP26. Os ydych chi wedi buddsoddi mewn sawl cronfa moesol gwahanol, mae'n bosib eu bod nhw i gyd wedi buddsoddi yn yr un cwmnïau. Gwiriwch nad ydych chi wedi buddsoddi gormod gyda nifer cyfyngedig o gwmnïau. Mae cadw portffolio cytbwys o fuddsoddiadau yn bwysig.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch gyda ni trwy www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

**Cwestiynau Huw ac Aled:** *Byddaf yn symud i Awstralia am 3 blynedd gyda fy ngwaith ac rwy'n bwriadu rhentu fy nghartref presennol yng Nghaerdydd nes i mi ddychwelyd. A fydd angen i mi dalu treth incwm Prydeinig ar yr incwm rhent er fy mod yn preswylio yn Awstralia? Os felly, a fyddaf yn talu treth ddwywaith (yn Awstralia ac ym Mhrydain)?*

Os ydych chi'n byw dramor, mae angen talu treth ym Mhrydain ar unrhyw incwm sy'n deillio o Brydain. Bydd angen i chi ddatgan yr incwm rhent i'r Swyddfa Dreth ar ôl i chi symud i Awstralia.

Gan y byddwch chi'n preswylio yn Awstralia, mae'n debygol y bydd angen i chi hefyd ddatgan eich incwm rhent ym Mhrydain i awdurdodau treth Awstralia.

O ganlyniad, bydd angen i chi gyflwyno ffurflenni treth yn Awstralia a Phrydain er mwyn datgan yr incwm rhent Prydeinig, ond bydd unrhyw dreth a dalwyd ym Mhrydain yn gallu cael ei ddefnyddio i leihau bil treth Awstralia.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi cynorthwyo unigolion sy'n symud i Rwsia, Singapore, Awstralia, UDA, Iwerddon a Hong Kong gyda'u hymholiadau treth. Cysylltwch â ni os ydych chi neu os yw aelodau o'ch teulu yn ystyried symud dramor, naill ai dros dro neu'n barhaol.

# Merched y Wawr
# Y Felin

Da oedd croesawu Non Rhys i gyfarfod Merched y Wawr Y Felin ym Mis Tachwedd. Merch o Gwmgwili, Sir Gâr, yw Non sy'n caru garddio. Ond mae llawer mwy iddi na hynny wrth gwrs!

'Tast Natur' yw'r fenter sy ganddi a *The Edible Garden* yw teitl ei llyfr sy'n esbonio beth y gallwch ei wneud gyda chynnyrch yr ardd boed yn flodau, ffrwythau, neu chwyn.

Suropau lliwgar oedd gan Non i ddangos i ni wedi eu creu o ddanteithion annisgwyl megis dant y llew, llygad y dydd, a cherdinen i enwi dim ond tri. Esboniodd sut y gallwch ychwanegu rhain at fwydydd sawrus a melys, hyd yn oed i wella coctels!

Cynhelir cyfarfod nesa'r gangen nos Iau, 16 Rhagfyr yng nghaffi Gathering Ground, Yr Eglwys Newydd. Mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno am noson o hwyl cyn y Nadolig. Cysylltwch ag Eiry os hoffech ddod - eiry.davies@hotmail.co.uk

*Glenys Evans*



## Nadolig Llawen yng nghwmni'r Mentrau

Mae'r Nadolig yn agosáu ac mae'n corachod prysur wedi paratoi llond sach o weithgareddau tymhorol ar eich cyfer.

Yn goron ar y cyfan bydd Ffair Nadolig yng Nghapel Salem, Treganna, ddydd Sul, 12 Rhagfyr rhwng 1.00 a 3:30yp. Yn ogystal â sesiynau Amser Stori yng nghwmni Siôn Corn, bydd stondinau amrywiol yn cynnig cyfle i'r oedolion siopa am anrhegion wrth fwynhau gwydraid o win poeth a mins pei. Mae mynediad am ddim a chroeso i bawb.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i Ganolfan Beulah, Rhiwbeina ar gyfer *Miwsig a Mins Peis* a gynhelir mewn partneriaeth â Live Music Now. Y soprano Jess Robinson a'r pianydd Michael Blanchfield fydd yn ein diddanu gyda chaneuon Nadoligaidd mewn cyngerdd anffurfiol sydd am ddim. (16 Rhagfyr, 12.00yp)

Cynhelir nifer o'r sesiynau tymhorol ar Zoom. Ymunwch â Wendy o Blodau Blodwen wrth iddi greu addurniadau syml ond trawiadol a bydd Nerys Howell yn cynnig tamaid i aros pryd mewn sesiwn ar fwydydd bys a bawd fydd yn plesio pawb.

Elinor Wyn Reynolds fydd yn cyflwyno *Sgwrs y Mis* gan drafod yr her o ddewis darnau amrywiol ar gyfer y gyfrol, *Llyfr Bach Nadolig*. Yn y Clwb Cerdd, Ynyr Roberts o Brigyn fydd gwestai Patrick Rimes i drafod rhai o'i hoff ganeuon Nadoligaidd.

Bydd Ian Williams o'r Bocs Teisennau'n cynnal gweithdy coginio Nadoligaidd i blant ym mlynyddoedd 4-6 ar 14 a 21 Rhagfyr.

Draw yn y Fro, cynhelir gweithdy coginio yng




nghwmni Ruth Thomas o Cookstars (4 Rhagfyr yn Ninas Powys) ar gyfer plant ym mlynyddoedd 3-7. A bydd Siôn Corn yn ymweld ag Amser Stori a bydd Spark Lab Cymru'n cyflwyno gwyddoniaeth i blant 2-4 oed mewn sesiwn hwyliog ym Mhenarth.

Diolch i bawb sydd wedi cefnogi'r ddwy Fenter yn ystod 2021. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni eto yn y Flwyddyn Newydd ac at groesawu ambell wyneb newydd i'n gweithgareddau!

Ond tan hynny, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth y tîm i gyd!

Gwefan: mentercaerdydd.cymru Ffôn: 2068 9888
menterbromorgannwg.cymru
E-bost: post@mentercaerdydd.cymru

## Cydraddoldeb i'r Gymraeg yn ein Prifysgol

Nos Iau, 25 Tachwedd, cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, gyda thua 800 o bobl yn bresennol. Ymhlith yr holl drafodaethau, derbyniwyd cynnig ger bron y gynhadledd gan Annell Dyfri, Swyddog rhan amser y Gymraeg i sefydlu swyddog llawn amser dros y Gymraeg.

Ar hyn o bryd, Swyddog y Gymraeg rhan amser yw Annell, yn gweithio'n ddi-dâl, ochr yn ochr â'i hastudiaethau ac yn ei haraith, dywedodd fod y "Gymraeg yn perthyn i bawb" ac mae'n fater o "gynhwysiant a chydraddoldeb".

Yn gwrthwynebu, roedd llywydd yr Undeb, sef Hannah Doe – a ddywedodd nad oedd creu wythfed swyddog yn bosib oherwydd pwysau ariannol a systematig. Onid oedd cynrychiolaeth o'r Gymraeg yn fater pwysig? Ond, y myfyrwyr oedd yn bwrw eu pleidlais ac yn lleisio'u barn y noson hon.

Dywedodd Annell Dyfri: "Dwi i'n credu bod yna ymdeimlad cryf ymysg Myfyrwyr Cymraeg a di-Gymraeg o'r angen am newid", a "rhaid parhau i frwydro nes ry'n ni'n cael be' ry'n ni eisie".

Fe bleidleisiodd bron pawb a oedd yn bresennol o blaid sefydlu Swyddog Llawn Amser dros y Gymraeg. Wrth feddwl ymlaen, fe fydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn trafod y cynnig i weld os allent sicrhau tegwch i'r Gymraeg.

"Mae'n fater o gydraddoldeb yn fwy na dim a dwi'n credu ei bod hi'n hollbwysig bod yna rywun o fewn yr Undeb sy'n cefnogi llais myfyrwyr Cymraeg, y dysgwyr ac ati, a hefyd yn rhywun sydd yn ein deall ac yn gallu ein cefnogi" meddai Annell.

Rydyn ni'n galw am lais ac am gynrychiolaeth i weithio dros ein hawliau. Os gall prifysgolion Bangor, Aberystwyth ac Abertawe gael swyddog llawn amser i weithredu dros y Gymraeg, pam na all ein prifysgol ni wneud yr un peth?

*Nel Richards*

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## TABERNACL, YR AIS

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Steffan Jones ac Elin ar eu priodas yng nghapel Tonyfelin, Caerffili.

**Diaconiaid Newydd**

Llongyfarchiadau i Gwenllian Edwards, Bill Davies a Dafydd Huw ar gael eu hethol yn ddiaconiaid. Mae'r tri yn cynrychioli ystod oedran yr aelodaeth yn berffaith.

**Cymdeithas Pnawn Iau**

Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor ddiwedd Hydref a chafwyd gwasanaeth ar y thema 'Enfys Gobaith'. Mae amryw o'n haelodau yn gyn-weithwyr y gwasanaeth iechyd ac roedd y thema yn agos at eu calonnau. Cafwyd cyfle i ganu emyn a gyfansoddwyd gan Margaret Rees ar thema ffydd, gobaith a chariad. Hyfryd hefyd oedd cael datganiad telyn gan Ann Williams.

Ganol mis Tachwedd, 'Taith i Syria' oedd thema diddorol Sian Rhiannon. Yn dilyn y sgwrs, cafwyd blas o fwydydd traddodiadol Syria.

**Clwb Darllen**

Y llyfr dan sylw ym Mis Tachwedd oedd *tu ôl i'r awyr* gan Megan Angharad Hunter.

**Cyngherddau**

Ganol mis Hydref cynhaliwyd noson gerddorol ddifyr iawn o dan ofal Syr Deian Hopkin. Bu'n traddodi'n huawdl iawn am hanes a datblygiad *jazz* yng Nghymru. Yn ystod y noson, tynnwyd sylw at y plac ar y wal gerllaw'r piano i gydnabod haelioni teulu'r diweddar H.T. Evans a'i fab Lyn Evans, ynghyd â theulu'r diweddar Julia Lloyd.

Ar ddechrau mis Tachwedd cafwyd datganiad cyntaf ar y piano newydd gan Iwan Llywelyn-Jones. Cafodd pawb eu cyfareddu gan ddawn aruthrol Iwan mewn rhaglen oedd yn cynnwys darnau gan Ravel, Debussy a Liszt, ynghyd ag un o'i drefniadau ei hun o dair cân Gymraeg.

**Gwasanaethau**

Mawr yw ein diolch i'r canlynol am yr oedfaon bore Sul ym mis Tachwedd – y bobl ifanc, Euros Rhys, Rhys ab Owen a'r Parchg Rosa Hunt. Yn yr un modd rydym yn ddyledus i'r Parchg John Roberts, Marc John Williams, y Parchg Denzil John a'r Parchg Rosa Hunt am eu cyfraniadau yn yr oedfaon hwyrol.

## EBENESER

**Bocsys OCC**

Braint i ni fel eglwys oedd cael cefnogi elusen Operation Christmas Child, sydd dan adain elusen Samaritan's Purse, unwaith eto eleni. Elusen yw hon sy'n darparu cymorth rhyngwladol i wledydd tlotaf y byd. Mae'r bocsys yn mynd i bedwar ban y byd ac mae gweld ymateb plant i dderbyn eu bocsys yn wefreiddiol. Darllenwch am yr elusen a gwyliwch fideos o'r gwaith a gyflawnir ganddynt yma www.samaritans-purse.org.uk

**Llongyfarchiadau**

i Cai Hayes ar ennill Gradd Meistr mewn Datrysiadau Cynaladwyedd Byd Eang ym Mhrifysgol Caerwysg. Yn ddiweddar hefyd cafodd swydd yn Adran Cynaladwyedd cwmni gweithgynhyrchu Essentra Components. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

**Penblwyddi arbennig**

Mae'n eithriad i gael dau'n dathlu penblwyddi arbennig yn ystod yr un wythnos ond dyna ddigwyddodd fis Tachwedd gydag Dr Iwan Morris yn 80 oed ar 14eg a Megan Williams yn 90 oed ar 17eg o'r mis.

Llongyfarchiadau arbennig iawn i'r ddau ohonynt wrth gyrraedd y cerrig milltir arbennig hyn. Braf yw gweld fod Megan yn cryfhau ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar.

**Cyflwyno siec**

Roedd hi'n wasanaeth arbennig ar ddydd Sul, 21ain o Dachwedd oherwydd cawsom gyfle arbennig i gyflwyno siec i Uned Arennol, Ysbyty Plant Cymru, ar ôl bod yn casglu arian am bron i ddwy flynedd. Ymestynnwyd y cyfnod casglu o'r llynedd i eleni oherwydd y pandemig. Mae'r elusen hon wedi bod yn agos at ein calonnau am fod un o'n hieuenctid, Seren Ann Jones, wedi bod yn derbyn gofal arbennig iawn ar ôl cael tynnu ei dwy aren ddechrau 2020. Pwy well felly na Seren i gyflwyno'r siec o £6355 i Carys Nicholas a chynrychiolwyr eraill o'r Uned Arennol? Bydd yr arian yn mynd tuag at y gwaith sylweddol o adnewyddu'r adran. Diolch iddynt am eu gwaith diflino a phob bendith iddyn nhw i'r dyfodol.

## SALEM, TREGANNA

**Oedfaon y Nadolig**

Croeso i bawb i ymuno â ni ar gyfer oedfaon y Nadolig:

Dydd Sul 12 Rhagfyr: Oedfa Llith a Charol, yn Salem ac ar Zoom

Dydd Sul 19 Rhagfyr: Gwasanaeth yr Ysgol Sul yn y bore a Gwasanaeth y Goleuni gyda'r nos. Bydd y gwasanaethau yn Salem ac ar Zoom felly croeso i bawb ble bynnag y byddwch.

Bore Nadolig 25 Rhagfyr: Gwasanaeth Nadolig am 9.30 y bore

**Y Bobl Ifanc**

Ar 20 Tachwedd aeth y bobl ifanc i fwynhau gweithgareddau ym Mharc Margam am y diwrnod. Mae'r Ysgol Sul hefyd wrthi'n ymarfer yn brysur ar gyfer ei gwasanaeth Nadolig.

**Adran Salem**

Cyfarfu Adran Salem i blant oed cynradd ddwywaith yn ystod Tachwedd, a bydd y parti Nadolig ar 2 Rhagfyr. Braf gweld plant a phobl ifanc yn cymdeithasu erbyn hyn wedi'r holl gyfyngiadau.

**Dymuniadau gorau**

Mae nifer o'n haelodau wedi derbyn llawdriniaethau yn ddiweddar, ac rydym i gyd yn anfon ein cofion cynhesaf atoch ac yn dymuno gwellhad buan i bob un ohonoch.




Cyflwyno siec i'r Uned Arennol

## EGLWYS Y CRWYS

**Cydymdeimlo**

Bu i'r Eglwys golli dau aelod arall yn ystod mis Tachwedd. Bu farw Mr Howell James, Y Mynydd Bychan, a fu'n teithio'r byd drwy'i oes yn sgil ei waith gyda British Airways. Mae'n cydymdeimlad yn fawr gyda'i briod Wynne a'i fab Ian yn eu profedigaeth.

Yna daeth y newydd trist am farwolaeth ddisymwth Mr Delwyn Tibbott. Roedd Delwyn yn ŵr uchel ei barch, bonheddig ac addfwyn, yn gadarn ei farn a'i argyhoeddiad. Cafodd ei ordeinio'n flaenor gyda'r Eglwys Bresbyteraidd yn 1965 ac yna yn y Crwys yn 1971. Rhoddodd hanner canrif o wasanaeth clodwiw i'r Eglwys. Mae'n cydymdeimlad dwysaf â'r teulu yn eu hiraeth. Coffa da amdano.

**Anrhydeddu**

Wedi gorfod aros am ddeunaw mis, oherwydd y pandemig, cafodd Cerian Angharad ei anrhydeddu â'r MBE am ei gwaith yn hybu gwyddoniaeth i bobl ifanc. Cyflwynwyd y fedal iddi gan y Tywysog Charles yng Nghastell Windsor ac roedd y teulu cyfan yno i'w chefnogi. Llongyfarchiadau mawr iddi. Mae Cerian wedi gweithio'n hynod o galed i gadw aelodau'r Crwys i gymdeithasu yn ystod y cyfnod anodd yma ac rydym yn hynod ddiolchgar iddi.

**Yr Ysgol Sul**

Mae plant a rhieni yr Ysgol Sul wedi bod yn hynod o brysur yn pacio bocsys esgidiau ar gyfer eu hanfon i Teams4u, elusen sy'n cefnogi plant a theuluoedd anghenus yn nwyrain Ewrop. Casglwyd 37 o focsys a fydd yn rhoi gwên ar wynebau plant y Nadolig hwn. Diolch i'r Dr Rhiannon Evans am gydlynu'r gwaith. Bu'r plant hefyd ar daith heddwch o gwmpas Parc Cathays cyn gorffen gyda phaned yng nghaffi'r Secret Garden ym Mharc Bute gan gofio geiriau'r Fam Teresa – 'Mae heddwch yn dechrau gyda gwên'. Diolch i Hannah Thomas am drefnu'r daith.

**Y Gymdeithas**

Cynhaliodd Y Gymdeithas 'Noson Hydwythedd' o dan ofal Kelly Lewis. Arweiniwyd ni ar daith gofal croen trwy ddefnyddio'r samplau a dderbyniwyd cyn y cyfarfod, ac eglurwyd pwrpas y cynhwysion organig a'u heffaith ar y croen a'r corff. Noson ddiddorol dros ben a'r merched, a'r dynion dewr, wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

**Corau**

Mae adeilad Y Crwys yn cael ei ddefnyddio gan Gorau CF1 ac Aelwyd Y Waun Ddyfal ar gyfer ymarferion, a braf oedd croesawu Aelwyd Y Waun Ddyfal mewn gwasanaeth Nadoligaidd nos Sul cyntaf Rhagfyr. Diolch iddynt am eu gwasanaeth bendithiol.

**Trefniadau Oedfaon**

Bydd y Gweinidog yn gwasanaethu ar Ionawr 2il a'r 16eg; y Parchg Dafydd Andrew Jones ar y 9fed; y Parchg Ddr R. Alun Evans ar y 23ain, ac yna ar y 30ain, yn oedfa'r bore gwasanaethir gan y Parchg Gwilym Wyn Roberts ac yn oedfa'r hwyr gan Mr Marc Jon Williams. Croeso cynnes i bawb.

Dymunwn Nadolig Llawen iawn i holl aelodau'r Crwys ac i ddarllenwyr y *Dinesydd*. Diolch i bawb am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

## BETHLEHEM, GWAELOD-Y-GARTH

**Oedfaon:**

**Rhagfyr 2021**:

5 - Oedfa Gymun - Delwyn Sion (5:00 p.m.)
12 – "Naw Llith a Charol" (5:00 p.m.)
19 - Nadolig yr Ysgol Sul (10:30 a.m.)
25 - Oedfa Bore'r Nadolig (10:00 a.m.)
26 - DIM OEDFA

**Ionawr 2022**: (am 10:30 a.m.) / Ysgol Sul yn y Festri)

2 - Oedfa Gymun - Delwyn Sion
9 - Oedfa Blygain (5:00 p.m.)
16 - Emlyn Davies
23 - Parchg Dafydd Andrew Jones
30 - Parchg Aled Edwards

**Sul y Pwdin**

(y Sul olaf cyn dechrau tymor yr Adfent. 21/11/2021 eleni)

"*Stir-up Sunday*" yn Saesneg, a hynny yn deillio o'r "*colect*" (gweddi fer) yn Llyfr Gweddi Gyffredin 1549 ar gyfer y diwrnod yma, sy'n cychwyn fel a ganlyn:-

"*Stir up, we beseech thee, O Lord, the wills of thy faithful people*".

Byddai clywed y darlleniad yn yr eglwys yn atgoffa'r gwragedd ei bod yn amser paratoi'r Pwdin Nadolig.

Mae Pwdin Nadolig go iawn, gyda 13 o gynhwysion, yn cynrychioli Crist a'i ddisgyblion, ac fe anrhydeddir y tri gŵr doeth o'i gymysgu (gan bob aelod o'r teulu) o gyfeiriad y dwyrain i'r gorllewin.

Yn *Bethlehem – Biography of a Town*, mae Nicholas Blincoe yn sôn iddo ymweld â theulu ei wraig yn ystod Nadolig 1994, gan gyflwyno iddynt bwdin Nadolig.

Darganfu nad oedd y teulu erioed wedi gweld pwdin Nadolig o'r blaen. Dechreuodd ddarllen y rhestr cynhwysion iddynt, ond chwarddodd y tad, gan egluro bod bron pob un cynhwysyn yn tyfu yn ei ardd, a'r gweddill yn cael eu cludo ar gefn camelod, ar draws yr anialwch, i'r dref, gan farsiandwyr Arabaidd, yn union fel yr aur, thus a myrr yn stori'r Geni.

Y ffarmwr a'r crwydryn yn nhref Bethlehem – a'u dylanwad ar hanes ein byd ni byth ers hynny.

Nadolig Llawen i holl ddarllenwyr y Dinesydd oddi wrth gynulleidfa Bethlehem, Gwaelod-y-garth.

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â Lynne Davies ar golli ei mam, Mrs Joan Davies, yn ddiweddar. Bu Mrs Davies yn byw gyda Lynne am rai blynyddoedd a chawsom y pleser o'i chwmni yn y capel ar sawl achlysur.

**Gŵyl y Goleuni**

Cynhaliwyd Gŵyl y Goleuni ar noson Galan Gaeaf eleni. Bwriad y noson oedd annog y plant a'r oedolion i feddwl am y goleuni ar noson sy'n gallu canolbwyntio ar y tywyllwch. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau fel peintio wynebau, creu lantern a gwahanol gemau gan fwynhau cŵn poeth a siocled twym. Bu Aneirin Britton o Grughywel yn perfformio drama i'r plant yn dangos ymatebion gwahanol i oleuni. Cofiwn am ddisgrifiad Iesu Grist ohono'i hun fel 'goleuni'r byd'. Gwrandawyd hefyd ar gân Aled Myrddin 'Fi ydy golau'r byd.' Mae modd gwrando ar y gân ar Youtube Cwmpawd Caerdydd.

**Noson Coelcerth**

Ar noson Guto Ffowc cafwyd cyfle i fwynhau a chymdeithasu yng ngardd Dewi a Leri George. Roedd coelcerth fawr, ychydig o dân gwyllt a sbarclyrs i'r plant bach heb anghofio'r cŵn poeth a'r S'mores!

**Gwasanaeth Carolau**

Estynnir croeso cynnes i ymuno mewn gwasanaeth carolau yng ngolau cannwyll, brynhawn Sul, 19 Rhagfyr am 5 o'r gloch, yn y Tabernacl, Yr Eglwys Newydd.

## EGLWYS DEWI SANT

**Diwrnod Gweithredu Byd-eang**

Ar fore Sadwrn, 6 Tachwedd, cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant gan Gymorth Cristnogol fel rhan o Ddiwrnod Gweithredu Byd-eang dros yr amgylchedd a newid hinsawdd. Yn dilyn hynny, ymgasglodd rhai wrth Neuadd y Ddinas cyn gorymdeithio tuag at Y Senedd.

**Dathlu 400 mlwyddiant cyhoeddi'r Salmau Cân yn 1621 gan Edmwnd Prys, Archddiacon Meirionnydd.**

Trefnwyd symposiwm gan y Llyfrgell Genedlaethol ar ffurf darlith wythnosol dros dair nos Lun yn Nhachwedd ar Zoom i ddathlu cyhoeddi'r gyfrol hon. Y Salmau Cân oedd y llyfr Cymraeg cyntaf i gynnwys cerddoriaeth wedi'i argraffu.

**Coffi a Chlonc**

Ar fore Sadwrn 20 Tachwedd, cydlynodd Siân Eleri Thomas sesiwn ar Zoom. Cynhelir y clonc nesaf ar gyfer dysgwyr Cymraeg ddydd Sadwrn 18 Rhagfyr am 10:30am.

**Gofal ein Gwinllan**

Bu dau anerchiad dros Zoom yn y trydydd seminar yn nhymor Yr Hydref a drefnwyd gan Yr Eglwys yng Nghymru i edrych ar gyfraniad yr Eglwys i iaith, hanes a diwylliant Cymru.

**Gwasanaethau mis Tachwedd**

Gyda mis Tachwedd roedden ni'n cyrraedd Tymor y Deyrnas yng nghyfnod olaf y Flwyddyn Eglwysig ac erbyn Sul ola'r mis roedd hi'n ddechrau'r Flwyddyn Eglwysig Newydd gyda Sul yr Adfent ddydd Sul, 28 Tachwedd.

Ar y Sul hwnnw, gyda'r hwyr, cafwyd gwasanaeth o ddarlleniadau a cherddoriaeth i nodi dechrau'r Adfent, sef y cyfnod o ddisgwyl ac ymbaratoi ar gyfer Gŵyl Y Geni.

**Gwasanaethau tros Y Nadolig**

Dydd Sul 19 Rhagfyr. Adfent IV
8:00 a.m. Y Cymun Bendigaid
10:30 a.m. Gwasanaeth Nadolig Aml-oed
6:00 p.m. Gwasanaeth o Lithoedd a Charolau
Dydd Mercher 22 Rhagfyr
1:00 p.m Carolau'r Cilgant yn yr awyr agored.
24 Rhagfyr Noswyl Nadolig
11:00 p.m. Cymun Cyntaf Y Nadolig
25 Rhagfyr Dydd Nadolig
9:30 a.m. Y Cymun Bendigaid
Dydd Sul 26 Rhagfyr. Gŵyl San Steffan
10:30. Y Foreol Weddi a Phregeth
6:00. Y Cymun Bendigaid
Dydd Sul 2 Ionawr 2022. Nadolig II
8:00 a.m. Y Cymun Bendigaid
10:00 a.m. Y Cymun Bendigaid
6:00. p.m. Gwasanaeth Cristingl ar gyfer y plant a'u teuluoedd

Os ydych yn bwriadu dod i un neu fwy o'r gwasanaethau tros yr Adfent a'r Nadolig, gofynnir yn garedig i chi anfon neges e-bost at Marian Fairclough 02920 885151 faircloughmarian@gmail.com

## BETHEL, PENARTH

**Y Cleifion**

Cafodd Hazel ddychwelyd i'w chartref lle mae'n gorffwys ac yn disgwyl galwad eto i'r ysbyty. Anfonwn ein cyfarchion a'n meddyliau cynnes ati. Mae Eirlys yn dal ar ei thaith hir o wellhad i'w hysgwydd, ond yn dal yn ddewr ac yn dod i'r oedfa'n gyson. Anfonwn gyfarchion hefyd i Ifan, gŵr Ceris, wedi iddo fod yn yr ysbyty.

**Trysorydd Newydd**

Llawenydd arbennig yn ddiweddar oedd clywed bod Nefydd wedi cytuno bod yn olynydd i Edryd yn y swydd o drysorydd y capel. Edrychwn ymlaen felly i'r Flwyddyn Newydd dan arweiniad dau brif swyddog, Alwena a Nefydd. Pob dymuniad da i'r ddau.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchion i Emma, a diolch enfawr iddi, ar lwyddiant y bore coffi at yr elusen Achub Y Plant. Hyd yma derbyniwyd dros £830.

**Calendr Adfent**

Fel y llynedd mae Emma a Sian Meinir yn trefnu Calendr Adfent ac yn gwahodd aelodau a ffrindiau i gyfrannu 'ffenestri', ar unrhyw ffurf. Bydd y 'ffenestri' yn agor yn ddyddiol o 2 Rhagfyr hyd at 24 Ragfyr.

**Oedfaon Tachwedd**

Ar Sul olaf Tachwedd cawsom yr hyfrydwch o groesawu Karen Owen i arwain ein haddoliad. Yn ei ffordd gynnes, ddiffwdan gosododd her i ni gyda chwestiynau ar gynnwys darnau yn y Beibl, ond ein cysuro bod mwy yn y Llyfr Mawr na mân ffeithiau.

Yn ei fyfyrdod ar 14 Tachwedd llwyddodd ein gweinidog i'n herio gyda chysylltiadau rhwng y Cadoediad a COP26 yn Glasgow yng nghyd-destun aberth.

Agorwyd ein myfyrdodau Tymor yr Adfent ar 28 Tachwedd yn gelfydd iawn gan ein cyd-aelod Rhodri. Dechreuwyd gyda sylwadau am neges obeithiol y Pabi Coch, ond nodi bod y gobaith cyntaf hwnnw wedi'i chwalu yn 1918 gan bla y Spanish Flu a diweithdra'r 30au. Arweiniodd at neges fythol obeithiol yr Adfent. Atgyfnerthwyd y sylwadau gyda barddoniaeth ac emynau perthnasol. Mil o ddiolch, Rhodri.

## EGLWYS GATHOLIG TEILO SANT

**Offeren dathlu**

Diolchgarwch oedd y thema ac roedd llawenydd yn y dathlu wrth i aelodau'r Cylch Catholig a chyfeillion o eglwysi Cymraeg Caerdydd ddod ynghyd i'r Eglwys Gadeiriol ar noson oer o aeaf ar 26 Tachwedd.

Roeddem yn nodi dau benblwydd pwysig, ond nid edrych nôl yn unig a wnaethom ond cael ein herio i fod yn 'feini bywiol' a chadw'r ffydd i'r rhai fydd yn dod ar ein hôl. Yr Esgob Edwin Regan oedd yn llywyddu a'r Tad Allan R. Jones, Caplan y Cylch Catholig, yn cyd-ddathlu ac yn pregethu. Roedd aelodau o deuluoedd gwreiddiol yr Offeren yn Gymraeg hanner can mlynedd yn ôl yn bresennol ac fe gafodd dau o'r genhedlaeth iau gymryd rhan yn yr Offeren gyda Guto Harri yn darllen y llith a Mared Whelan yn canu'r salm. Darllenwyd yr ymbiliau gan y Chwaer Miranda Richards, yn cynrychioli'r Cylch.

Yn y derbyniad ar ôl yr Offeren cafwyd lansiad llyfr pwysig i'r Cylch Catholig gan y diweddar Ioan Roberts. Yr oedd wedi derbyn yr her o gasglu trysorfa o wybodaeth, hanesion a lluniau o weithgarddau'r Cylch Catholig dros bedwar ugain o flynyddoedd. Mae *Gwinllan a Roddwyd* yn gyhoeddiad Y Lolfa ac fe werthodd yn dda mewn noson gymdeithasol braf.

**Offeren Nadolig**

Bydd Offeren arbennig yn Gymraeg yn Eglwys Teilo Sant ar gyfer y Nadolig. Byddwn yn cynnal ein gwasanaeth misol arferol ar Noswyl Nadolig yn hytrach nag ar Sul olaf y mis. Cawn felly gyfle i ddathlu'r Nadolig gydag Offeren ar 24 Rhagfyr am 4 00pm.

**Trefniadau'r misoedd nesaf**

5 Rhagfyr - 11yb Offeren (Zoom)
30 Ionawr - 4.30 yp Offeren
2 Ionawr - 11yb Offeren (Zoom)
7 Chwefror - Offeren (Zoom) amser i'w gadarnhau

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

## BETHEL, RHIWBEINA

**Oedfaon Rhagfyr**

Ar 5 Rhagfyr byddwn yn croesawu'r Parchg Lona Roberts i'r pulpud ac ar 12 Rhagfyr ein gweinidog y Parchg Evan Morgan fydd yn cynnal y gwasanaeth cymun. Bydd y gwasanaeth ar 19 Rhagfyr yng ngofal yr aelodau pan fydd cyfle i flasu naws y Nadolig trwy ddarlleniadau a chanu carolau. Ni chynhelir gwasanaethau yn y capel ar 26 Rhagfyr na 2 Ionawr ond byddwn yn ail-ymuno i addoli ar 9 Ionawr pan fydd ein gweinidog yn gwasanaethu.

**Bore coffi**

Cynhaliwyd Bore Coffi yn y capel ar 29 Tachwedd. Bu cyfle i fwynhau paned a sgwrs ac i godi arian i'r elusen Mind. Cawsom ein diddanu gan Sian Francis a ganodd gyfres o ganeuon Nadoligaidd. Braf oedd gweld ein bod wedi codi dros £700 i'r elusen.

**Llongyfarchiadau**

Yn ystod y mis cawsom gyfle i ddymuno'n dda i Wyn a Julie Jones a oedd yn dathlu eu priodas ruddem.

## MINNY STREET

www.minnystreet.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchg Owain Llyr Evans

Mae'r eglwys yn parhau i ddilyn camau diogelwch mewn oedfaon a chyfarfodydd, yn cynnwys diheintio, gwisgo mygydau, sylw i awyru ac annog aelodau i gadw pellter cymdeithasol. Er nad yw'n ofynnol bellach i roi gwybod ymlaen llaw er mwyn mynychu oedfaon yn y capel, bydd angen gwneud yn achos oedfa noswyl Nadolig. Bydd modd dilyn y rhan fwyaf o'r oedfaon a'r cyfarfodydd bore Mercher ar Zoom.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul mis Rhagfyr**

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn holl oedfaon mis Rhagfyr, fore a hwyr. Cynhelir oedfa gymun yr Adfent fore Sul, 5 Rhagfyr. Yn oedfa gynnar bore Sul 12 Rhagfyr (9.30), bydd oedfa Nadolig yr Ysgol Sul. Yna, gyda'r nos, bydd oedfa Nadolig aelodau a chyfeillion hŷn. Oedfa Nadolig aelodau a chyfeillion iau a gynhelir fore Sul, 19 Rhagfyr. Am 23.30 y bydd oedfa noswyl Nadolig ac am 10.00 y bydd oedfa bore'r Nadolig. Byddwn yn cyfarfod eto yng nghwmni'r Gweinidog am 10.30, 26 Rhagfyr (ni fydd oedfa hwyrol).

**Cydymdeimlo**

Cofiwn yn annwyl am Catrin (merch Carys a Simon Morgan, Cyncoed) a diolchwn am ei chyfraniad i weithgareddau'r Ysgol Sul ar hyd y blynyddoedd. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i rhieni, ei brawd Jac, ei mam-gu, Mererid Williams, ei hewythr Prys, a'r teulu, yn Awstralia, ynghyd â'r teulu ehangach a chyfeillion niferus.

**Gweithgarwch y mis**

Bydd PIMS yn cynnal dathliad Nadolig yn ystod y mis. Yng nghyfarfodydd MATH ar 8 a 15 Rhagfyr, yr Adfent fydd dan sylw. Ar Zoom y bydd cwis y Gymdeithas nos Fawrth, 14 Rhagfyr.

**Mis Ionawr**

Bydd oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul yn dilyn y drefn arferol ym mis Ionawr. Byddwn yn croesawu cyfeillion yr eglwys i bregethu ar ddau Sul olaf y mis.

Bydd cyfarfodydd MATH yn cael eu cynnal fore Mercher, 5 a 12 Ionawr (10.30). Ar 11 a 27 Ionawr y bydd PIMS yn cyfarfod (19.00) ac ar 25 Ionawr bydd y Gymdeithas yn croesawu Aled Hall (19.30).

## TABERNACL, Y BARRI

**Oedfaon Tachwedd**

Roedd gwasanaethau tri Sul cynta' mis Tachwedd dan ofal ein gweinidog, y Parchg Kevin Davies. Siân Meinir arweiniodd ein hoedfa ar Sul ola'r mis a byrdwn ei phregeth oedd yr angen i ni bwyllo ac aros ac ystyried. Roedd y gynulleidfa'n werthfawrogol iawn o ymdrech Siân i ddod atom - er gwaetha'i hanffawd diweddar.

**Yr Adfent**

Sul olaf Tachwedd oedd Sul cyntaf yr Adfent. Cynheuwyd cannwyll gynta''r Adfent gan Rhoswen Deiniol. Daw'r gair 'adfent' o'r Lladin *adventus* sy'n golygu 'dyfodiad' - ac yn y grefydd Gristnogol, wrth gwrs, mae'n cyfeirio at ddyfodiad Crist - sef genedigaeth Crist ym Methlehem. Ond yn wreiddiol roedd dathliadau'r Adfent yn paratoi'r mynachod at eni Iesu - a hefyd at Ŵyl yr Ystwyll ym mis Ionawr.

Enw'r hen Gymry ar yr wythnos ola cyn y Nadolig oedd y 'Dyddiau duon bach' - ac enw arall ar gyfnod y Nadolig oedd Gŵyl y Goleuni. Mae cynnau canhwyllau yn ystod y cyfnod tywyll yma'n mynd yn ôl ymhell cyn geni Crist - yn gyntaf i groesawu goleuni yn ôl i'r byd - ond i ni heddiw, i groesawu goleuni Crist i'r byd.

Wrth gynnau'r gannwyll gyntaf
Diolchwn am olau'r nef
Sy'n g'leuo pob rhyw gornel
Yn wyn, â'i gariad Ef.

Goleuni sy'n ein tywys
O 'stafell dywyll ddoe,
Drwy'r drws, i'r llwybr newydd
A chyffro'r paratoi.

A chofiwn nad un gannwyll
Oleua'r tŷ i gyd,
Ond myrdd o fflamau bychain
Yn belydrau yn ein byd.

Gwna ninnau yn ganhwyllau
A'r persawr aiff ar led,
Fel byddo'n camau'n union
A chariad lond ein cred.

*Sian Meinir*

## STORI'R NADOLIG

Oherwydd cyfyngiadau Covid ni fu'n bosibl llwyfanu drama'r geni yn y Tabernacl, Yr Ais fel ag yr arferid gwneud mewn blynyddoedd a fu. Ond ers 1 Rhagfyr bu cyfle i weld a chlywed yr hanes y tu allan i Eglwys St Ioan, Yr Ais gyda chymorth pypedau.

Ewch draw i weld a chlywed yr hanes. Gerllaw mae dau asyn ifanc iawn, Coco a Moli.

Am fwy o fanylion:
the-story.org.uk



# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yng nghyfarfodydd Tachwedd cafwyd amrywiaeth testunau – cwis diddorol a phrofiadau awdur o Gaerdydd.

Ar 5 Tachwedd, ein Cadeirydd Gwenda Morgan a'i merch Eleri Morgan Thomas oedd y cwestiwn feistri mewn cwis treiddgar ac amrywiol. Gwenda oedd sylfaenydd yr Aelwyd a'r Côr yng nghwmni y diweddar Eilonwy Jones dros 25 mlynedd yn ôl. Mae Eleri ar staff y Senedd – wedi gweithio i'r BBC am flynyddoedd. Prif destunau'r cwestiynau oedd Newyddion Cyfoes, Barddoniaeth, Diarhebion a Dywediadau, Hanes Cyffredinol, Digwyddiadau a Phersonoliaethau ardal Caerdydd a de Cymru. Enillwyd y cwis gan Mari Price ac Enyd Evans yn ail agos. Diolch iddynt am brynhawn difyr i oglais y côf!



Ar 19 Tachwedd, yr awdur Ioan Kidd o Riwbeina, fu'n diddori'r aelodau. Mae'n awdur enwog a thoreithiog, wedi ei fagu yn ardal Cwmafan a'i addysgu yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan dan hyfforddiant John Rowlands mewn iaith fodern, a Phrifysgol Aberystwyth. Soniodd am ei gyfnod fel athro ac wedyn fel aelod o'r BBC a HTV gan ganolbwyntio ar newyddion ac fel golygydd rhaglenni plant. Mae'n siarad Sbaeneg ac wedi treulio amser ym Mhatagonia.

Eglurodd ei arallgyfeirio fel nofelydd dros gyfnod hir ar nofelau lluosog fel *Cyrion*, *Un o Ble Wyt Ti?, Dewis, a Cysgodion Cain.* Enillodd ei nofel *Dewis* Lyfr y Flwyddyn yn 2014. Eglurodd beth yw bod yn nofelydd – cyfuno ysgafnder a dwysder, a phwysigrwydd gweithio mewn lluniau. Dadansoddodd y cymeriadau yn fanwl a rhoi pleser i'r gwrandawyr mewn sgwrs hynod o ddiddorol. Mae ar fin cyhoeddi nofel arall - *Tad Wlad* - ac wedi rhannu ychydig o'r cynnwys i godi awydd a'r bawb i'w darllen pan ddaw o'r wasg. Roedd yn ddiddorol cael mynd i mewn i fyd ysgrifennu creadigol yr awdur.

Cyfarfodydd mis Rhagfyr ar Zoom am 2yp Gwener 3 Rhagfyr – Rhys ab Owen (AS) a Gwener 17 Rhagfyr – y cerddor Carwyn Ellis.

Os hoffech ymuno â ni, cysylltwch â: aelwydhamdden@gmail.com

## Llythyr at Sion Corn



*Annwyl Olygydd,*

Mae'r Nadolig yn nesáu, ac i lawer o blant a phobl ifanc yng Nghymru, gall fod yn amser anodd o'r flwyddyn. Gall eich darllenwyr ein helpu i wneud gwahaniaeth i fywydau plant wrth ddod â rhywfaint o lawenydd Nadoligaidd i'w teuluoedd eu hunain.

Mae'r dyn ei hun, Siôn Corn, wedi agor ei weithdy ac yn gweithio gyda'r NSPCC i anfon llythyrau wedi'u personoli yr holl ffordd o Begwn y Gogledd i Gymru. Gall darllenwyr roi rhodd trwy greu Llythyr oddi wrth Siôn Corn, sydd yn cael ei argraffu a'i bostio'n syth i'r plentyn mewn amlen Nadoligaidd. Gallant ddewis o wyth dyluniad gwahanol, gan gynnwys 'Nadolig Cyntaf Babi' a 'Helpwyr Bychain Siôn Corn' ac ychwanegu gwybodaeth bersonol fel enw, oedran a diddordebau. Mae'r llythyrau ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Y cyfan a ofynnwn yw rhodd a awgrymir o £5, a allai helpu Childline i fod yno i blant dros yr Ŵyl a thu hwnt. Bydd ein gwirfoddolwyr Childline ym Mhrestatyn a Chaerdydd ymhlith y rhai sy'n gwirfoddoli eu hamser i wrando ar blant a phobl ifanc dros gyfnod y Nadolig. Gallai £8 ateb dwy alwad i Childline, unrhyw adeg o'r dydd a'r nos, hyd yn oed ar ddydd Nadolig. Gallai £12 ateb galwadau gan dri phlentyn a gallai £25 dalu tuag at hyfforddi cwnselwyr gwirfoddol Childline i fod yno i blant pan fydd eu hangen arnynt.

I greu llythyr personol i'ch teulu oddi wrth Siôn Corn, ewch i wefan NSPCC.

*Emma Brennan*
Rheolwr Gweithgareddau Codi Arian Cefnogwyr
NSPCC Cymru



## Y DIGWYDDIADUR

### Rhagfyr

**Sul, 12 Rhagfyr**
Ffair Nadolig Menter Caerdydd yng nghapel Salem, Treganna, rhwng 1.00pm a 3.30pm.
**Llun, 13 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Elinor Wyn Reynolds ar y testun '*Llyfr Bach Nadolig*: yr hwyl a'r her o greu cyfrol yn llawn ysbryd yr Ŵyl'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. Manylion pellach: Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).
**Mercher, 15 Rhagfyr,**
Noson yng nghwmni Beti George, Jon Gower, Rhys ab Owen AS i ddathlu lansiad *Datod.* 7 - 9 yh yn y Drawing Room, Cwrt Insole, Llandaf. Tocynnau £10 o Siop Caban.
**Iau, 16 Rhagfyr**
Menter Caerdydd. Miwsig a Mins Peis yng nghwmni Jessica Robinson a Michael Blanchfield yng Nghanolfan Beulah, Rhiwbina, am 12.00 o'r gloch. Tocynnau am ddim. Manylion pellach: Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).
**Gwener, 17 Rhagfyr**
Cymrodorion y Barri. Dathlu'r Nadolig gyda rhaglen amrywiol yng Nghanolfan Palmerston brynhawn dydd Gwener am 3.00pm. Bydd Siôn Corn yn cyrraedd am 5.00pm. Manylion pellach gan Eiry Palfrey (eirypalfrey@gmail.com).
**Sadwrn, 18 Rhagfyr–Gwener, 29 Rhagfyr**
Theatr Sherman yn cyflwyno *Y Coblynnod a'r Crydd* gan Katherine Chandler. Am fanylion ynghylch dyddiadau ac amseroedd, ewch i wefan y theatr: https://www.shermantheatre.co.uk/?lang=cy
**Llun, 20 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Cerdd a Chân Nadolig, yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Oherwydd y cyfyngiadau ar y niferoedd, gofynnir yn garedig i bawb sy'n dymuno dod i gadarnhau hynny ymlaen llaw drwy gysylltu naill ai â'r Cadeirydd, Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029-2061-5243) neu'r Ysgrifennydd, Dilwyn Jones, (029-2062-0653 neu (dilwynjones51@hotmail.com)

### Ionawr

**Mercher, 5 Ionawr**
Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs gan Sioned Lewis am y gyfres 'Gwesty Aduniad', am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (029-2084-8545 neu gwen.emyr@gmail.com); neu Shirley Williams (029-2061-5243 shirleywilliams642@gmail.com).
**Sadwrn, 8 Ionawr**
Clwb Gwylio Adar yn cyfarfod. Am fanylion ynghylch amser a lleoliad, cysylltwch â Gwilym Dafydd (eirianagwilym@gmail.com; trydar @GwilymDafydd). Croeso cynnes.
**Llun, 17 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Sgwrs gan Non Rhys ar y testun 'Natur a Mi', yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 7.30pm. Oherwydd y cyfyngiadau ar y niferoedd, gofynnir yn garedig i bawb sy'n dymuno dod i gadarnhau hynny ymlaen llaw drwy gysylltu naill ai â'r Cadeirydd, Shirley Williams(029-2061-5243 shirleywilliams642@gmail.com) neu'r Ysgrifennydd, Dilwyn Jones (dilwynjones51@hotmail.com; 029-2062-0653).
**Gwener, 21 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Angharad Price ar y testun 'Ymbapuroli', sef teitl ei chyfrol ddiweddar o ysgrifau a gyrhaeddodd restr fer Llyfr y Flwyddyn 2021. Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach a'r ddolen Zoom, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James, (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### Chwefror

**Mercher, 2 Chwefror**
Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs gan yr arlunydd Efa Lois, am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545) neu Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029-2061-5243).
**Gwener, 4 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd. Sgwrs gan yr Athro Mererid Hopwood ar y testun 'Dychmygu Iaith'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com)
**Sadwrn, 5 Chwefror**
Mae'r Clwb Gwylio Adar yn cyfarfod ar fore Sadwrn cyntaf pob mis. Am fanylion ynghylch amser a lleoliad, cysylltwch â Gwilym Dafydd (eirianagwilym@gmail.com; trydar @GwilymDafydd). Croeso cynnes i bawb.
**Gwener, 18 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Holi Lleucu Roberts, enillydd 'y dwbl dwbl rhyddiaith', am ei chyfrolau arobryn yn Eisteddfod AmGen 2021. Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach a'r ddolen Zoom, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James, (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at yr Athro E. Wyn James.**
**Manylion cysylltu ar dud. 2**

**NADOLIG LLAWEN IAWN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

**i bawb o ddarllenwyr *Y Dinesydd***
**Diolch am bob cefnogaeth**

# Siaradwyr Cymraeg Newydd

*"Mae nifer o gyfleon am glonc i'w cael ar hyn o bryd"*

## Gwilym Dafydd



**Amser Jôc gyda Huw James**

Roedd Idris wedi cael busnes llaeth llwyddiannus iawn yn Llundain a phan werthodd y busnes i Express Dairies cafodd ffortiwn ddigon teidi. Ac roedd yn gwybod sut i ofalu amdano. Nid yn gymaint ei fod yn grintachlyd - ond hyd yn oed yn ei ymddeoliad roedd e yn hoffi bargen. Roedd yn rhaid cael ongl ar bopeth bob amser. Weithiau byddai hyn yn mynd ar nerfau ei wraig, Heulwen. Gyda thŷ mawr yn y wlad, roedd hi'n ffansio'i hun fel tipyn o ledi fawr ac ychydig yn uwch na'r holl droelli a'r delio dyddiol.

Roedd bywyd yn dda iawn i'r ddau. Ond daeth yna ergyd fawr i Idris pan ddwedodd y doctor wrthyn nhw fod Heulwen yn eithriadol o sâl. Roedd Idris yn wirioneddol hoff ohoni – ac roedd hi wedi gweithio'n galed yn y busnes ac wedi bod yn ffactor sylweddol yn ei lwyddiant. Wrth i'r diwedd agosáu, ymgymerodd â llawer o'r nyrsio ei hun.

Doedd e ddim yn ddyn emosiynol ond fe aeth ati i ddweud wrthi faint roedd e'n teimlo drosti.

"Rwyt ti wedi bod yn wraig wych i mi, Heulwen. Doedd dim modd gofyn am well. Nawr a oes unrhyw beth y gallaf ei wneud i ti i'th gysuro yn dy oriau olaf."

Meddyliodd am ychydig ac atebodd yn feddylgar:

"Mewn gwirionedd mae… Rydw i eisiau i ti brynu rhywbeth i mi."

"Wrth gwrs, Cariad, medri gael unrhyw beth rwyt eisiau. Beth fyddet ti'n ei hoffi?"

"Wel, Idris, does dim ots gen i beth ydy e ond, Idris, rydw i eisiau i ti brynu rhywbeth ar RETAIL, ac nid am fargen."

**Cŵn enwog**

Does dim cof gen i weld Mali ar Zoom gyda Sheridon yn ystod cloncs amser cinio cyfnod Covid-19. Ond mae llun Mali wedi bod yn *Y Dinesydd* sawl gwaith! Tro diwethaf dych chi'n cofio gweld llun o Sali, ci Colin, yn y Castell gyda Cathy a Sean? Dyma lun arall o Sali'r ci. Roedd hi yno tu allan i'r Senedd ar brynhawn Sadwrn, 13 Tachwedd. Roedd Cymdeithas yr Iaith wedi trefnu protest. Roedd tua mil o bobl yno ac ambell i gi. Fel y gwyddoch, mae'n siwr, mae tai haf ac ailgartrefi yn dipyn o broblem yn enwedig mewn pentrefi a threfi bach yn y gorllewin a'r gogledd.

**Gair gan Rachel o Fenter Caerdydd**

Mae Menter Caerdydd a Dysgu Cymraeg Caerdydd yn cynnal Bore Coffi Misol i ddysgwyr dros Zoom bob dydd Gwener ola'r mis am 10.30 yng nghwmni gwestai arbennig. Mae'n gyfle i ddysgwyr o bob lefel i gwrdd i wrando, i sgwrsio ac i ymarfer eu Cymraeg mewn sesiwn anffurfiol. Ym mis Rhagfyr, cynhelir y cyfarfod ar fore Gwener, 17 Rhagfyr oherwydd gwyliau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Y tro hwn, bydd un o diwtoriaid y ganolfan Dysgu Cymraeg yn sgwrsio â Catrin Cooke am ei busnes Tusw Blodau. Ar ddydd Gwener olaf mis Ionawr (28ain), bydd Rachel o Menter Caerdydd yn sgwrsio â Kelly Lewis am ei busnes adweitheg a'i sesiynau Neal's Yard. Os hoffech dderbyn y ddolen Zoom ar gyfer y sgyrsiau misol, cysylltwch â: rachel@mentercaerdydd.cymru.

**Gair gan Sheridan o'r Brifysgol**


Diweddariad Coffi a Chlonc Zoom Caerdydd

Mae'n wir bod cyfarfodydd rhithiol wedi bod yn hollbwysig i'n grŵp bach anffuriol ni dros y deunaw mis diwethaf, ond don ni ddim yn sylweddoli ar y pryd pa mor bwysig y bydden nhw yn y tymor hir. Rydyn ni wedi 'gollwng y gath o'r cwd' fel pe tai, ac er bod sesiynau wyneb yn wyneb yn dychwelyd yn ara deg, mae'r grŵp wedi tyfu cymaint ers mis Mawrth 2020 gyda dysgwyr a siaradwyr newydd o Gymru a thu hwnt yn ymaelodi, bydd hi'n amhosibl i droi'r cloc yn ôl. Felly, yn sgil hynny, bydd sesiynau cyfrifiadurol Coffi a Chlonc yn parhau ar ddydd Llun a dydd Gwener rhwng 13.00-14.00 (fel bydd amgylchiadau yn caniatau wrth gwrs). Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Sheridan Morgan: morgansd1@cardiff.ac.uk



*Cathy, Colin, Sali'r ci a GD*

## Rhif: 219





### Ar Draws

1. Hyba Glyn i fod yn ystyfnig (8)
5. O bob ochr mae hon yn broffwydes (4)
9. Llyfr du Boris yn cynnwys cefnu ar yr aflan (4)
10. 'Da wyf, Dai'. Ces adnewyddiad (8)
11. Cymhwyso y dyn cyntaf i ddechrau sefydlu undeb (5)
12. 'Ar dymor gaeaf dyma'r -----
    Sydd annwyl, annwyl in'' (DT) (3)
13. Arglwydd yr hanner mis dan do (3)
14. '----- ----- -----
    Awn yn fintai gref
    Ac addolwn Ef' (WE) (3,6,4)
19. Achos yr artaith i'r Benfelen (1,4,3)
20. Y gair olaf (4)
21. Rho saim ar Eira ond nid ei phen! (3)
22. Mewn pentref ond mwy na phentref (3)
23. Mae cost i fod yn hunanfeddiannol (5)
24. 'Daeth ----- o'i gariad
    I'r ddaear o'r nef' (WHW) (4)
25. Y deg clôs all fod yn lloches (8)

### I Lawr

2. Torri addunedau heb ddechrau deall y mannau cyfarfod (7)
3. 'Henffych i'n Duw a'n Ceidwad hael
   A welwyd yn ----- ----- gwael' (anhysbys) (1,6)
4. 'Y sêr oedd yn syllu ar dlws faban Mair
   Yn cysgu ----- ----- ----- ----- o wair' (ef ECJ) (2,5,2,4)
6. 'Roedd yr awel ----- yn finiog oer
   A llithrai dieithrwch dros wedd y lloer' (WRhN) (7)
7. 'O ryw anfeidrol gariad
   Yn cofio ----- fi' (WW) (7)
8. Mae'r cyfle yma yn ddiddiwedd ond chwim (6)
14. Cael bin i'r tŷ yn creu helbul (7)
15. Ffrwyth Nansi yn colli'i heithafion yw cwymp (7)
16. ''Beth yw'r atsain o -----?'
    Nefol lu yn seinio sydd' (RE) (6)




17. Cael trochiad efallai wrth yfed (7)
18. 'Caed bywiol ddŵr -----
    Ar lin Mair, ar lin Mair' (DH) (7)

**Enillydd Croesair Rhif 217**

**Mair Morgan, Treganna**

**Atebion Croesair Rhif 217**

**Ar Draws:** 1. Dysg 8. Ar Galfaria 9. Caerloyw 10.Nodi 12. Statws 14. Dychwel 15. Helynt 17. Gerwin 18. Buan 19. Brecwast 21.Glaswelltyn 22. Celu

**I Lawr:** 2. Ymgartrefu 3. Gair 4. Egroes 5. Clywed 6. Masnachwr 7. Pabi 11. Dref i'w sail 13. Teyrnasu 16. Tabled 17. Gwesty 18. Bagl 20. Winc

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Chwefror, 2022
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN
Gwobr: Tocyn llyfr £10

## Pobol y Rhigwm

Croeso'n ôl i golofn Pobol y Rhigwm a chroeso arbennig i'r meuryn newydd, **Aron Pritchard**.

Mae Aron yn hanu o ochrau Caerfyrddin a dechreuodd farddoni a chynganeddu tra'n ddisgybl yn Ysgol Bro Myrddin dan anogaeth Tudur Dylan, a oedd yn athro yn yr ysgol ar y pryd. Bydd y rhai ohonoch sy'n gwrando ar *Dalwrn y Beirdd* ar Radio Cymru yn adnabod Aron fel aelod brwd o dîm llwyddiannus Aberhafren. Y mae hefyd yn un o diwtoriaid cydwybodol Ysgol Farddol Caerdydd.

Ar gyfer ei dasg gyntaf y mae wedi gosod her dymhorol i'r beirdd. Mae digon o amser i farddoni y tro hwn gan mai y dyddiad cau yw 20 Ionawr, 2022. Felly, ar ôl llenwi eich boliau â'r twrci a llowcian y darn olaf o bwdin Nadolig, beth am eistedd mewn cadair gyfforddus a mynd ati i lunio limrig.

Tasg rhif 47:
Y dasg yw llunio limrig yn cynnwys y llinell:

**'mae sat-nav 'da Santa eleni'**

Anfonwch eich cynigion erbyn 20 Ionawr, 2022 at:
eirianagwilym@gmail.com
Gwobr: Tocyn llyfr £10.

# Cerddi Nadolig Hannah Roberts

### Y GOEDEN FACH.

Coeden fach fytholwyrdd
Yn tyfu wrth y wal,
Coeden fach fytholwyrdd
Yng nghanol coed mawr tal.

Coeden fach fytholwyrdd
Eisiau bod yn fawr,
Coeden fach fytholwyrdd
A'i dagrau ar y llawr.

Coeden fach fytholwyrdd
A Nadolig wrth y drws,
Coeden fach fytholwyrdd
Eisiau bod yn dlws.

Coeden fach fytholwyrdd
Un bore gyda'r wawr,
A bachgen bach a'i dad yn dod
I'w thorri hi i lawr.

"Dyma'r un 'dw i ishe"
Medde'r bachgen bach,
Bydd hon yn bert mewn cornel
Pan ddaw Santa gyda'i sach.

Pan glywodd hi y geirie
Medde'r goeden,-- wrth ei bodd,
"Dw i'n mynd i fod yn speshal,
Dw i'n mynd i fod yn rhodd!

Coeden fach fytholwyrdd
Wed'i goleuo'n iach,
Gallwch fod yn goeden 'Dolig
Hyd yn oed os y'ch chi'n Fach!!

### SEREN

Beth oeddet Seren Bethlem
yn ddiamwnt llachar yn ffenest
gemydd y nen,
ai uniad dwy blaned,
ai golau o gomed
neu'n y nef Siwpernofa oeddet
yn disgleirio uwchben?
Dy aberth
oedd gannwyll bugeiliaid,
lantarn ar daith y doethion,
a'r golau yn gudd rhag Herod,
dy ddiwedd yn cyhoeddi'r dechrau.

Ti yw goleuni ein Gŵyl,
gwenu 'rwyt ar gopa'r goeden,
a wincio yng nghainc ein carol.

Os ffrwydriad ffyrnig oeddet,
os trengi wnaethost
yn bumed o Dachwedd dychrynllyd,
trengi wnaethost
i'n harwain i gor y Geni,
i oleuo Gwaredwr 'n ei grud,
a'th olau bellach
yn gwylio pob bychan ddaw i'r byd.


**TŶ CYFFORDDUS I'W OSOD**



**ym Mangor**
**ar gyfer tymor coleg 2022/23.**
**Tŷ pedair llofft, tair dwbwl**
**ac un sengl.**
**Am fwy o wybodaeth**
**cysylltwch trwy e-bost**
**elaroberts771@hotmail.co.uk**